# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD MAWRTH, 11 HYDREF 2016 am 2.00 o'r gloch** | **TUESDAY, 11 OCTOBER, 2016 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog Pwyllgor** | **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Gwilym O. Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery, Dylan Rees (Cadeirydd /Chair), Alwyn Rowlands, *Sedd Wag (Heb Ymaelodi)/ Vacant Seat (Unaffiliated)*

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch./Rev.Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/ The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales) (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro/Professor Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Dim/None

# R H A G L E N

1 **YSGOL Y BONT**

Derbyn cyflwyniad gan Sioned Parry, Ysgol y Bont ar waith AG yr ysgol.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION CYFARFOD 12 GORFFENNAF, 2016** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2016.

4 **MATERION YN CODI**

- Cadarnhau yr anfonwyd llythyr at y CBAC ynghylch costau hyfforddiant athrawon ar gyfer y cwrs maes llafur Safon Uwch AG ac argaeledd deunyddiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y cwrs.

- Rhoi diweddariad ar gynnydd/sefyllfa Ysgol Pencarnsiog.

- Rhoi diweddariad ynghylch yr ysgolion mae Aelodau'r CYSAG wedi ymweld â nhw fel rhan o'r arfer o arsylwi ar gyfnodau addoli ar y cyd ynghyd â'r ysgolion hynny sydd wedi rhoi gwahoddiad am y tymor i ddod.

5 **HUNAN ARFARNIADAU YSGOL** (Tudalennau 7 - 34)

Cyflwyno adroddiadau hunan arfarnu AG yr ysgolion canlynol :

- Ysgol Gynradd Biwmares
- Ysgol Gynradd Brynsiencyn
- Ysgol Uwchradd Bodedern ac
- Ysgol Parch. Thomas Ellis

6 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2015/16** (Tudalennau 35 - 62)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn am 2015/16.

7 **DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GWE**

Derbyn diweddariad gan Ymgynghorydd Her GwE.

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 63 - 70)

Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, 2016 yn Rhyl, Sir Ddinbych. *(Fersiwn Saesneg)*

9 **CYFARFOD NESAF**

Nodi bydd cyfarfod nesaf y CYSAG yn cael ei gynnal am 2:00 y.p., ddydd Mawrth, 14 Chwefror, 2017.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)<br><br>**Yr Awdurdod Addysg**<br><br>Cynghorwyr Gwilym O. Jones, R. Llewelyn Jones, Alun Mummery<br><br>**Yr Enwadau Crefyddol**<br><br>Kirsty Williams (Yr Eglwys yng Nghymru)<br>Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)<br>Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)<br><br>**Cynrychiolwyr Athrawon**<br><br>Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)<br>Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Gynradd Llangaffo)<br>Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern) |
| **WRTH LAW:** | Mr D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd) (Clerc CYSAG)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru), Parch. Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd), Alison Jones (Ysgol Parch. Thomas Ellis) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Miss Bethan James (Ymgynghorydd Her GwE), Mr Alan Macdonald (Pennaeth Ysgol y Borth) (ar gyfer eitem 1) |

---

DRAFFT

### 1. CYFLWYNIAD GAN YSGOL Y BORTH

Croesawodd y Cadeirydd Mr Alan Macdonald, Pennaeth Ysgol y Borth, i'r cyfarfod a gwahoddwyd ef i siarad â'r CYSAG am waith Addysg Grefyddol yr ysgol yn y Cyfnod Sylfaen.

Dosbarthodd Mr Alan Macdonald enghreifftiau o waith Addysg Grefyddol cyfnod Sylfaen plant yr ysgol yn ogystal â chynllun gwaith er mwyn i'r aelodau gael eu gweld. Eglurodd fod Addysg Grefyddol yn rhan hanfodol o'r Cwricwlwm wrth i elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ymgysylltu mewn ffordd groes gwricwlaidd, mae'r ysgol yn ceisio gwau'r elfennau hyn i mewn i'w gynlluniau gwaith. Nid yw hon yn her mor fawr ac mae'n ymddangos gan fod Llythrennedd yn rhan o holl weithgareddau a gwaith yr ysgol.

Darparwyd aelodau hefyd â chopi o raglen yr ysgol ar gyfer sesiynau addoli ar y cyd. Mae'r ysgol yn cynnal sesiwn addoli ar y cyd ddyddiol gyda straeon o'r Beibl a thema grefyddol wedi'u mapio allan mewn modd clir a phwrpasol ymlaen llaw. Arweinir y sesiynau hyn gan athrawon yr ysgol yn eu tro un ai draws eu cyfnod allweddol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 2 neu o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6. Cynhelir sesiynau addoli ar y cyd o fewn yr ystafell ddosbarth hefyd. Mae'r disgyblion yn cymryd llawer o ddiddordeb yn y straeon a gyflwynir iddynt a gwneir ymdrech benodol i ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyflwyno rhag i'r sesiynau ddod yn ailadroddus. Bydd yr ysgol hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect Llyfr Agored o fis Medi ymlaen lle bydd grŵp o unigolion penodol o'r Eglwys leol yn dod i'r ysgol i gyflwyno agweddau o addysg grefyddol drwy elfennau o ddrama.

Cyflwynodd Mr Macdonald gopi o Gynllun Gwaith Blynyddoedd 1 a 2 a dosbarthwyd enghreifftiau o waith disgyblion ar ffurf llyfrau a lluniau er mwyn i Aelodau'r CYSAG gael eu gweld. Fe'u hysbyswyd y gwneir llawer o'r gwaith yn y Cyfnod Sylfaen drwy chwarae a llawer o waith trafod ac fe welir hyn drwy luniau ar wefan yr ysgol a'u cyfrif Twitter. Yn aml iawn gyda phlant, tystiolaeth ar lafar a geir yn y Cyfnod Sylfaen. Gellir hefyd gwerthuso llwyddiant y gwaith drwy edrych ar y canran o blant a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig mewn addysg bersonol a chymdeithasol; mae'r elfen hon wedi datblygu yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae Addysg Grefyddol yn rhan hanfodol o hyn yn y Cyfnod Sylfaen.

Diolchodd aelodau'r CYSAG i Mr Alan Macdonald am roi o'i amser er mwyn mynychu'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle iddynt ei holi am unrhyw agwedd o'r ddarpariaeth AG yn y cyfnod sylfaen yr oeddent angen unrhyw eglurhad arno. O'r deunyddiau a gyflwynwyd iddynt, roedd yr aelodau yn cydnabod bod y gwaith yn heriol ac yn ysgogi'r plant.

## 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb

## 3. COFNODION CYFARFOD 23 CHWEFROR 2016

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 23 Chwefror, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd ei fod wedi derbyn ymateb gan Esgobaeth Bangor i'r ohebiaeth a anfonwyd ar gais y CYSAG mewn perthynas â defnydd yr Eglwys o derminoleg yn ei adroddiad arolwg Adran 50 mewn perthynas ag Ysgol Llangaffo. Roedd Cyfarwyddwr Addysg Eglwysig Esgobaeth Bangor wedi egluro bod gan yr Eglwys yng Nghymru ei fframwaith ei hun ar gyfer arolygon a gynhaliwyd o dan Adran 50 o Ddeddf Addysg 2005 a'i fod yn gosod y disgwyliadau a'r broses mewn perthynas â chynnal yr arolygon hynny.

- Rhoes yr Ymgynghorydd Her GwE gopi diwygiedig i'r CYSAG o'r Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar ei Adroddiad Blynyddol 2014/15 a'r materion sydd wedi codi yn ystod 2015/16 a dywedodd y byddai'n mynd i fwy o fanylion am gynnwys y Cynllun o dan eitem 7 ar yr agenda lle byddai'n rhoi diweddariad i CYSAG am hyn ac unrhyw ddatblygiadau perthnasol eraill.

- O ran darpariaeth a chynllunio AG yn Ysgol Garreglefn, rhywbeth yr oedd CYSAG wedi gofyn i'r Ymgynghorydd Her GwE gadw golwg arno, dywedodd y Swyddog ei bod wedi ymweld ag Ysgol Garreglefn er mwyn craffu ar y ddarpariaeth Addysg Grefyddol a'i bod wedi gwneud argymhellion yn dilyn hynny. Gan fod newidiadau staffio wedi digwydd yn Ysgol Garreglefn roedd hi'n bwriadu ail ymweld â'r ddarpariaeth Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

- Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Pennaeth Ysgol y Bont wedi derbyn y gwahoddiad i fynychu cyfarfod CYSAG er mwyn rhoi cyflwyniad ar ddarpariaeth AG yr ysgol ond bod dal angen cadarnhau manylion ei bresenoldeb.

- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd bod y llythyr yr oedd CYSAG wedi gwneud cais am ei anfon i CBAC mewn perthynas â'r ddarpariaeth o drefniadau HMS ar gyfer y cwrs TGAU newydd ac argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer y Cwrs Safon Uwch newydd wedi ei ddrafftio ond efallai y bydd angen ei addasu.

  Hysbysodd Mrs Mefys Edwards y CYSAG fod y maes llafur Safon Uwch newydd yn dechrau ym mis Medi, 2016 a'i bod wedi dod i ddeall nad yw'r deunyddiau ar gyfer y fanyleb newydd yn debygol o fod yn barod tan ddiwedd mis hydref ac nad oes unrhyw gadarnhad o argaeledd deunyddiau cyfrwng Cymraeg. Mae cyrsiau hyfforddi athrawon ar gyfer y cyrsiau maes llafur TGAU (sy'n dechrau ym mis Medi, 2017) a Safon Uwch bellach ar gael ond mae mynychu 'r hyfforddiant Safon Uwch ym mis Hydref yn golygu cost o tua £200 ar gyfer un aelod o staff ac yn ymarferol mae'n golygu y bydd angen i'r ysgol dalu £250 pellach er mwyn cyflogi

athro/athrawes llanw. Mae pryder na fydd nifer o ysgolion yn gallu fforddio hyn. Nododd Mrs Mefys Edwards hefyd fod GwE wedi cyflwyno system o “Ymarferwyr Arweiniol” sy’n golygu y bydd 3 Ymarferydd Arweiniol ar gyfer pob pwnc - un ar gyfer pob Hyb yng Ngwynedd/Môn, Conwy/Dinbych ac Y Fflint/Wrecsam. Yn ychwanegol at hynny, mae un o’r tri wedi’u penodi fel Ymarferydd Arweiniol Rhanbarthol a fydd yn gyfrifol am gydlynu cymorth ledled y rhanbarth. Dywedodd Mrs Edwards mai hi fyddai’n cyflawni’r rôl o Ymarferydd Arweiniol Rhanbarthol ar gyfer Addysg Grefyddol ac Ymarferydd Arweinol Gwynedd a Môn ac y byddai’n cysylltu ag Ymgynghorydd Her GwE ac y byddai mewn sefyllfa i ddiweddaru CYSAG ar ddatblygiadau.

Cytunodd y CYSAG y dylai’r llythyr yr oeddent wedi’i gynnig yn y cyfarfod diwethaf gael ei anfon at CBAC ac y dylid ei adolygu er mwyn cynnwys y pryderon mewn perthynas â’r gost i ysgolion o ryddhau athrawon i fynychu hyfforddiant ar gyfer y maes llafur cwrs Safon Uwch a hynny o ran y gost ei hun a chost cael athro/athrawes llanw.

**GWEITHREDU: Swyddog Addysg Gynradd, mewn ymgynghoriad â’r Pennaeth Uwchradd/cynrychiolydd Uwchradd ar CYSAG i ail ddrafftio’r llythyr CBAC a chynnwys costau hyfforddiant athrawon ar gyfer y cwrs maes llafur Safon Uwch newydd yn ogystal â thynnu sylw at ffaith bod angen i ddeunyddiau cyfrwng Cymraeg fod ar gael mewn pryd.**

## 5. AROLYGON ESTYN - GWANWYN 2016

Cyflwynwyd y wybodaeth berthnasol o’r arolygon Estyn a wnaed yn Ysgol y Ffridd ac Ysgol Pencarnisiog ar gyfer ystyriaeth CYSAG.

Cadarnhaodd y Swyddog Addysg Gynradd nad oedd unrhyw faterion yn codi mewn perthynas ag Ysgol y Ffridd. Mae Ysgol Pencarnisiog ar hyn o bryd yn destun monitro gan Estyn ac mae’r Arolygwr wedi argymell yn yr adroddiad arolwg y dylai’r ysgol sicrhau bod y cynlluniau gwaith yn ymateb yn llawn i anghenion y Cwricwlwm Cenedlaethol a’r maes llafur ar gyfer Addysg Grefyddol.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Her GwE ei bod wedi ymweld af Ysgol Pencarnisiog yn ddiweddar er mwyn craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith disgyblion. Gallai gadarnhau bod digon o dystiolaeth o Addysg Grefyddol yn llyfrau gwaith y plant yn y Cyfnod Sylfaen a thystiolaeth o Addysg Grefyddol mewn llyfrau gwaith CA2. Yr elfen sydd angen ei chryfhau yw dilyniant a chydlyniant cynllunio. I’r diben hwn, mae Pennaeth Ysgol Pencarnisiog yn ei rôl fel cydlynydd wedi ymweld ag ysgol arall er mwyn cael syniadau am arferion ac er mwyn gweithio ag athro/athrawes arall er mwyn ceisio mapio AG allan ar draws Ysgol Pencarnisiog. Bydd gan yr ysgol athro/athrawes CA2 newydd ym mis Medi.

**Cytunwyd nodi’r wybodaeth a gyflwynwyd.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

## 6. HUNAN WERTHUSIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd yr adroddiadau hunan werthuso Addysg Grefyddol gan Ysgol Pencarnisiog ac Ysgol Syr Thomas Jones ar gyfer ystyriaeth y CYSAG.

Croesawodd CYSAG hunan werthusiad Ysgol Pencarnisiog fel asesiad gonest a theg o ddarpariaeth yr ysgol a chanlyniadau Addysg Grefyddol ac roedd yn ail bwysleisio ei rôl gefnogol gan nodi ei fod yn edrych ymlaen ar gael derbyn diweddariad ar gynnydd gan Ysgol Pencarnisiog maes o law.

Arweiniodd Mrs Mefys Edwards y CYSAG drwy hunan werthusiad Ysgol Syr Thomas Jones a thynnwyd sylw at feysydd cyrhaeddiad ac arfer da o fewn Addysg Grefyddol o dan y prif benawdau yn ogystal â’r meysydd ar gyfer datblygu. Cyfeiriodd ar arferion addoli ar y cyd yn yr ysgol a dywedodd bod sesiynau addoli ar y cyd yn cael eu cynnal yn ddyddiol gan yr ysgol gyfan ar wahân i ddydd Mercher pan gynhelir sesiynau gyda thiwtoriaid yn y dosbarth ac fe allai’r testun gynnwys trafodaethau am rywbeth sydd wedi digwydd yn y newyddion a ddefnyddir er mwyn adlewyrchu arno. Mae’r darlleniadau a’r thema yn y sesiynau addoli ar y cyd yn rhai Cristnogol eu natur. Y Pennaeth

sy’n arwain y sesiynau ddydd Llun, y disgyblion eu hunain sy’n arwain ddydd Mawrth a dydd Iau ac aelod o Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr ysgol sy’n arwain ar ddydd Gwener.

Bu’r CYSAG gydnabod yr hunan werthusiad fel adroddiad cynhwysfawr a manwl. O ran hunan werthusiadau AG sydd dal heb eu derbyn, dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd bod tri wedi eu cyflwyno yn y dyddiau diwethaf ac y byddent ar gael yn y cyfarfod nesaf. Mae angen ystyried ffyrdd amgen o gael gwybodaeth am safon a’r ddarpariaeth o AG yn yr ysgolion hynny nad ydynt wedi cyflwyno adroddiadau hunan werthusiad e.e. cynnal ymweliadau.

Hysbysodd Ymgynghorydd Her GwE y CYSAG ei bod wedi addasu’r canllawiau eleni i adlewyrchu’r pwyslais ar y fframweithiau llythrennedd a rhifedd ac er mwyn hyrwyddo cysondeb o ran dull a chynnwys. Mae adran ar gyfer adlewyrchu ar y safonau mewn sgiliau sy’n cynnwys llythrennedd, rhifedd, TGCh a meddwl wedi eu cynnwys.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu sesiwn addoli ar y cyd yn Ysgol Bodffordd lle mai’r Samariad Trugarog oedd y thema. Dywedodd y Swyddog Addysg Gynradd y byddai’n cysylltu â’r ysgolion ym mis Medi er mwyn gofyn iddynt ystyried gwahodd aelodau o CYSAG i arsylwi cyfnodau addoli ar y cyd.

**Cytunwyd i nodi adroddiadau hunan werthuso Ysgol Pencarnisiog ac Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a diolchwyd i’r ysgolion am eu darparu.**

**GWEITHREDU:**

- **Darparu CYSAG â diweddariad ar gynnydd Ysgol Pencarnisiog mewn perthynas â darpariaeth AG, cynllunio a chanlyniadau yn y man.**
- **Ymgynghorydd Her GwE i lunio rhestr o’r ysgolion y mae Aelodau CYSAG eisoes wedi ymweld â nhw fel rhan o’r arfer monitro cyfnodau addoli ar y cyd.**

## 7. DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD HER GWE

Adroddodd yr Yr Ymgynghorydd Her GwE fel a ganlyn:

- Bod Cynllun Gweithredu’r CYSAG yn seiliedig ar Adroddiad Blynyddol 2014/15 a’r argymhellion a wnaed o ganlyniad. Mae blaenoriaethau’r Cynllun Gweithredu wedi eu nodi isod ac fe awgrymir y dylai’r rhain barhau i ffurfio sail gwaith y CYSAG ar gyfer 2016/17. Eglurodd y Swyddog sut y cynigiwyd y byddai pob blaenoriaeth yn cael ei bodloni a sut y byddai tystiolaeth yn cael ei chadw, y canlyniadau arfaethedig yn ogystal â’r corff/pobl sy’n gyfrifol am sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd gan yr Awdurdod Lleol, yr Ymgynghorydd Her GwE neu’r Aelodau CYSAG eu hunain. Rhoddodd y Swyddog hefyd ddiweddariad i’r CYSAG am y gweithredoedd a’r cynnydd hyd yma o dan bob pennawd blaenoriaeth yn ogystal â’r gweithredoedd a oedd wedi’u cynllunio ar gyfer y misoedd nesaf.

  - Datblygu arweinyddiaeth dda mewn Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd
  - Ymateb i adroddiad Donaldson, sef Dyfodol Llwyddiannus (Successful Futures) gan ei fod yn berthnasol i Addysg Grefyddol
  - Cefnogi athrawon uwchradd wrth iddynt baratoi ar gyfer paratoi a darparu’r maes llafur TGAU
  - Hyrwyddo addoli ar y cyd

- Bod ysgolion cynradd yn gwneud defnydd helaeth o’r teclyn INCERTS ar gyfer olrhain ac asesu perfformiad a chynnydd disgyblion a’i fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn hysbysu asesiadau athrawon yn bennaf, ond nid yn unig, mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Daeth i’r amlwg bod athrawon yn defnyddio hen ddisgrifiadau lefelau ar gyfer maes llafur AG yr Eglwys Gatholig yng Nghymru yn hytrach na’r rhai y cytunwyd arnynt ar gyfer y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer AG o ganlyniad i'r ffaith bod yn rhaid iddynt ddewis y gyfres briodol o ddisgrifwyr lefelau a’u bod yn cael eu cam-gyfeirio - drwy’r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael - at y gyfres anghywir. Ceisiodd Ymgynghorydd Her GwE gymeradwyaeth CYSAG er mwyn cael tynnu sylw’r ysgolion at y camgymeriad hwn ac i’w cynghori i gael defnyddio’r disgrifiadau lefel ar gyfer y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.

**Cytunwyd –**

- **Nodi'r diweddariad.**
- **Cefnogi bod blaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu fel maent wedi'u cyflwyno yn ffurfio sail ar gyfer gwaith y CYSAG yn 2016/17.**

  **GWEITHREDU: Ymgynghorydd Her GwE i gynghori ysgolion cynradd y sir drwy lythyr o'r angen, wrth ddefnyddio rhaglen dracio INCERTS, i sicrhau eu bod yn dewis y set priodol o ddisgrifwyr lefelau ar gyfer AG yn ymwneud â'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol.**

## 8. CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

Cyflwynwyd y dogfennau canlynol ac fe'u nodwyd gan y CYSAG:

- Cofnodion y cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru gynhaliwyd yn Hwlffordd ar 8 Mawrth, 2016.
- Cofnodion Pwyllgor Gwaith Cymdeithas CYSAGau Cymru gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Mai, 2016.
- Y rhaglen ar gyfer cyfer cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhelir yn Y Rhyl, Sir Ddinbych ar 23 Mehefin, 2016. Nodwyd nad oedd cofnodion drafft wedi eu cylchredeg hyd yma.

## 9. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG am 2pm, dydd Mawrth 11 Hydref 2016.

**Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| |
|---|
| Ysgol Beaumaris     Gorffennaf 2015 |
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol |

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Y CYFNOD SYLFAEN

Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn raddol ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae rhan fwyaf yn gallu trafod a gofyn cwestiynau ystyrlon o gysidro oed gallu.

Mae rhan fwyaf yn gallu siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua ychydig yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.

Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd lleiafrif o blant yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae llawer yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Mae disgyblion MAT yn dechrau nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol mewn crefyddau.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio rhai credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol. Mae ychydig yn gallu trafod yn ystyrlon sut mae agweddau ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall lleiafrif o'r disgyblion wneud cysylltiadau da rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn briodol.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae mwyafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol priodol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae lleiafrif yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau gan gynnig barn eu hunain yn onest. Ychydig iawn sy'n iawn o'r disgyblion sy'n dechrau cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml.

Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae mwyafrif o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a brnau am gwestiynau sylfaenol. Yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac mai rhannol ac amhendant yw'r atebion yn aml

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro y dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol. Mae ymweliadau addysgol I Gadeirlan Llanelwy wedi codi brwdfrydedd y disgyblion tuag at y maes ac felly wedi cynnal safonau da s y'n amlwg yn eu geaith mewn llyfrau ac ar wal arddangos.

| **Materion i gael sylw**<br><br>**CYFNOD SYLFAEN**<br><br>• Parhau i ddatblygu geirfa a gallu'r disgyblion i gwestiynu yn synhwyrol.<br><br>• Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.<br><br>**CYFNOD ALLWEDDOL 2**<br><br>• Parhau i ddatblygu'r medrau disgyblion i fyfyrio , uniaethu, parchu barnau a chredau gwahanol ac i werthfawrogi y tebygrwydd rhwng crefyddau | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br><br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br><br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2. |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**<br><br>**Y CYFNOD SYLFAEN**<br><br>• Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno Addysg Grefyddol. Maent wedi adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.<br><br>• Mae cynlluniau y Cyfnod Sylfaen ar sail yr ymwybyddiaeth uchod wedi ymgorffori pobl, credoau a chwestiynau o fewn y ddau faes yma ac ar draws y meysydd dysgu eraill.<br><br>• Mae'r gweithgareddau wedi eu cynllunio'n ofalus ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall ac o ganlyniad mae profiadau cadarn ar waith .<br><br>• Mae ystod o brofiadau yn cael eu cynnig i roi bob cyfle i'r disgyblion wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes.<br><br>• Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r |

ddarpariaeth yn y maes.

Mae’r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn briodol yn y Cyfnod Sylfaen

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir awr yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2. Mewn ambell themâu mae’r maes yn cael sylw dyfnach ac o ganlyniad mae ‘r ysgol yn Addysgir y maes gaddasu’r amserlen o dymor i dymor.
- Mae’r ysgol yn gwneud defnydd adnoddau o’r llyfrgell sy’n dyfnhau ymhellach ddealltwriaeth yr athrawes o’r maes. Mae’r ddarpariaeth yn dda ar draws y cyfnod.
- Mae cynlluniau priodol yn sicrhau dilyniant a datblygiad. Mae medrau ymholi disgyblion i yn datblygu’n dda wrth drafod cwestiynau mawr ac yn sicrhau dyfnder yn nealltwriaeth llawer o’r disgyblion.
- Mae dulliau asesu ar gyfer dysgu ar waith yn gyfraniad gwerthfawr wrth ddarparu tasgaugwahaniaethol.
- Manteisir yn dda ar y cyfleoedd i fynd a’r plant allan ar ymweliadau â alloldai ac i wahodd ymwelwyr i drafod materion Addysg Grefyddol â’r plant.

Mae ansawdd addysgu a’r ddarpariaeth yn Cyfnod Allweddol 2 yn dda.

**Materion i gael sylw**

**Y CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr.
- Rhoi gwell ystyriaeth ar annog y plant i ddatblygu sgiliau meddwl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Cryfhau tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth.
- Annog pob disgybl i fyfyrio ar y dysgu.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Addoli ar y Cyd**

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy √** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94) | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel dosbarth unwaith yr wythnos a phedair gwaith fel ysgol gyfan yn y neuadd. Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a cymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad. Nid oes yr un teulu wedi dewis gwneud hynny ers sawl blwyddyn<br><br>Fe archwilir agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd cynhwysol.<br><br>Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:<br><br>• Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar ysgogiad, cyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd.<br>• Gweddïo<br>• Canu<br>• Darllen<br>• Actio<br><br>Dros y blynyddoedd ddiweddar mae Addoli ar y Cyd wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r Addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd ym mhob sesiynau. Mae hyn yn bwysig i'r ysgol er mwyn rhannu gwerthoedd o barch distaw.<br><br>Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn gyson dda. | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>• **Rhannu cyfrifoldebau fel bod holl staff addysgu yn cael cyfle i arwain mewn perthynas ag A ar y C**<br>• **Cyflwyno mwy o gyfleoedd i gyd- ganu.** | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • **Sicrhau nad yw'r gwasanaethau yn mynd dros yr amser .** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Brynsiencyn
Ynys Môn
LL61 6HZ

**Ffôn / Tel**
01248 430457


## Cynllun Hunan Arfarnu Ysgol Brynsiencyn - Addysg Grefyddol

| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** |
|---|
| **Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion ac asesiadau athrawon.**<br>**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**<br>Y CYFNOD SYLFAEN<br>Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu yn dda ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un(90%+) yn gallu trafod a gofyn cwestiynau perthnasol i storïau crefyddol ,cynnwys gwasanaethau boreol neu agweddau moesol mewn Amser Cylch.<br>Gall y rhan fwyaf (90%) siarad am eu teimladau ac erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau crefyddol eu natur.<br>Datblygir geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen trwy storïau Beiblaidd a gwasanaethau a bydd lleiafrif( 30%+) o blant yn dechrau dod i gydnabod bod ystyr i ddefodau a symbolau crefyddol.<br><br>CYFNOD ALLWEDDOL 2<br>Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf (90%) yn gallu galw i gof, ymateb a thrafod agweddau syml rhai o'r credoau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Gall y lleiafrif nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhwng crefyddau a astudir a Christionogaeth.<br>Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae ychydig o'r disgyblion yn gallu disgrifio nodweddion rhai credoau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall lleiafrif (40%) o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi nifer o'r agweddau sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.<br><br>Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf (90%)o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill a phobl o wahanol gredoau y maent wedi dysgu amdanynt. Mae y rhan fwyaf yn ymwybodol bod ystyr i symbolau crefyddol a byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas mewn gwersi a gwasanaethau boreol.<br>Yn niwedd Cyfnod Allweddol 2 mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barn a chred eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau a gwerthoedd pobl eraill yn gallu effeithio ar eu bywydau hwythau. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd.<br><br>Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae y rhan fwyaf (90%) yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am |

eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd . Maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hwy gan gynnig eu barn eu hunain. Trwy wybodaeth am gredoau a astudir yn y themau mae ychydig (20%) o'r disgyblion yn dechrau cydnabod bod cwestiynau crefyddol yn aml yn gymhleth ac yn anodd eu deall

Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae mwyafrif (60%) o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas ac agweddau crefyddol . Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol. Yn ôl eu profiadau eu hunain mae tua hanner y disgyblion yn cydnabod bod cwestiynau crefyddol sylfaenol yn aml yn gymhleth ac o'r herwydd yn ansicr yn eu trafodaethau.

Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol.

**Materion i gael sylw**

**CYFNOD SYLFAEN.**

- Datblygu geirfa grefyddol.
- Meithrin cyfleoedd i fynegi barn syml erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Datblygu syniadau ynglyn ag effaith crefydd ar fywydau pobl.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Datblygu syniadau ynglyn ag effaith crefydd ar fywydau pobl mewn gwahanol rannau o'r byd a gwahanol gredoau.
- Sicrhau fod y tasgau a ddarperir ar gyfer disgyblion diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn heriol i ddatblygu gallu rhesymegol i allu trafod cwestiynau mawr crefyddol

| Rhagorol | | Da | √ | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn allweddol 2 – Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

2.1 Dangosydd Ansawdd Profiadau dysgu

2.1.1 Diwallu anghenion dysgwyr a'r gymuned ehangach

Mae'r ysgol yn sicrhau cymuned ofalgar ac yn gwarchod lles pob plentyn, ac fe roddir sylw da iawn i agweddau ysbrydol a moesol yn y gwasanaethau boreol sydd yn ateb y gofynion statudol. Rhoddir cyfleoedd i'r plant gyfrannu mewn gwasanaethau a chyngherddau mewnol ac allanol sydd yn amlygu ei hun yng ngallu'r rhan fwyaf o'r disgyblion i gyfrannu yn hyderus.

Trefnir cyfleoedd da i'r plant fyfyrio a meddwl am eraill sy'n llai ffodus trwy sicrhau gweithgareddau a chyfleoedd i gefnogi ystod o elusennau ac achosion da - NSPCC, Plant Mewn Angen, Diwrnod Trwynau Coch, Ymgyrch Bocs Nadolig, ac erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae bron bob un o'r disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd y mudiadau a gwerthoedd Cristnogol.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn y pentref yn rheolaidd a byddwn yn gwahodd y rhieni a ffrindiau i ddigwyddiadau yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf(90%), ar draws yr ystod oedran yn elwa o'r cyfleoedd hyn i gymryd rhan a pherfformio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac yn cynyddu yn eu gwerthfawrogiad o'u pentref a'i sefydliadau.

Mae datblygiad moesol y disgyblion yn cael ei feithrin pan y byddwn yn gwahodd Gweinidogion, y Parch Geraint Roberts a'r Ficer lleol y Parch Eric Roberts i gynnal gwasanaeth boreol neu i siarad gyda'r plant am ddefodau crefyddol . Byddwn hefyd yn cynnal Gwasanaethau Diolchgarwch a

Gwasanaeth Nadolig yn yr ysgol ac yn y capel neu'r eglwys. Rhydd hyn brofiadau gwerthfawr i'r holl ddisgyblion gyda'r rhan fwyaf erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi cryfhau a datblygu eu dealltwriaeth o astudiaethau crefyddol yr astudir yn y cwricwlwm i'r lefel ddisgwyladwy.

**Materion i gael sylw**

**CYFNOD SYLFAEN.**

- **Parhau i greu mwy o gyfleoedd ar gyfer trafod agweddau crefyddol.**
- **Cynnal mwy o gyfleoedd i'r Ficer lleol/Gweinidog ddod i drafod ei waith /yr eglwys/capel yn y dosbarth.**

**CYFNOD ALLWEDDOL 2.**

- **Gan mai prin iawn yw'r disgyblion sydd yn mynychu capel neu eglwys cynnal mwy o gyfleoedd i'r Ficer lleol/Gweinidog ddod i drafod ei waith ac agweddau crefyddol.**

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |

| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** |
|---|

Mae Gwasanaethau Boreol yn dilyn trefn draddodiadol Gristnogol yn ddyddiol yn yr ysgol. Cynhelir gwasanaeth ar y cyd - ysgol gyfan yn ddyddiol.

Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad yn ôl eu cred.

Fe gwmpasir agweddau moesol, ysbrydol a chred Gristionogol .

Bydd y plant yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr Addoliad:

- Myfyrio sy'n cynnwys gwrando, gwylio neu fyfyrio ar gyflwyniad neu sgwrs gan aelod o'r staff neu siaradwr gwadd- gwahoddir y ficer lleol o leiaf deirgwaith y tymor.
- Gweddïo
- Canu
- Darllen

Codir a datblygir ymwybyddiaeth y plant o ddinasyddiaeth byd eang trwy nifer o weithgareddau, gan gynnwys dysgu am gredoau a chrefydd mewn gwledydd tramor drwy'r cwricwlwm. Mewn Amser Cylch a Gwasanaeth Boreol cyfeirir at drychinebau megis newyn , Tsunami ayyb i dynu sylw a cheisio cael y plant i ddeall am y pethau sylfaenol mewn bywyd rydym ni yn gymryd yn ganiataol. Ceir gwrandawiad ac adborth da gan tua hanner y Cyfnod Sylfaen a llawer (+70%) o'r Adran Iau.

Rhoddir cyfleoedd i'r plant ddysgu a myfyrio am effeithiau tlodi a newyn ar blant led y Byd. Bydd cyfleoedd i godi arian ar draws yr ysgol i ddysgu am waith a chyfrannu i elusennau gan gynnwys: Plant Mewn Angen, Ymgyrch Y Galon, Trwynau Coch ac Operation Christmas Child. Mae trefniadau'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda gyda .

Mae naws ysbrydol i'n gwasanaethau ac mae llawer (70%) o'r plant yn cyfrannu'n effeithiol trwy rannu teimladau ar y pryd.

Cynhelir sesiynau Amser Cylch ym mhob dosbarth a sicrheir cyfleoedd da i fyfyrio, holi a mynegi barn – bernir bod llawer (70%) yn datgan budd o'r gweithgareddau hyn.

Mae'r ddarpariaeth ABaCh yn ogystal ag arferion dyddiol yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch .

Mae cyswllt iach rhwng mudiadau lleol –Cartref Henoed, y Capel, Eglwys a'r Cylch Meithrin a mae'r disgyblion yn ymwybodol iawn bod y mudiadau hyn yn weithredol yn y pentref.

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y rhan fwyaf or plant plant.

| |
|---|
| |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**<br><br>• **Datblygu mewnbwn y disgyblion yn unigol a thorfol i wasanaethau yn rheolaidd**<br>• **Dilyn trefn i gyd fynd a themau'r tymor – dosbarthiadau i gynnal gwasanaethau yn eu trefn ac yn rheolaidd**<br>• **Sicrhau fod cyfrifoldebau wedi eu rhannu a'r holl staff yn deall eu cyfrifoldebau.** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Addysg Grefyddol: Ysgol Uwchradd Bodedern**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

## Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu

## Cyfnod Allweddol 3

**Darpariaeth**

Erbyn diwedd CA3 mae'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a phrif grefyddau'r byd a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol a hynny drwy dri sgil craidd y pwnc. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymdrin â chwestiynau sylfaenol megis 'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?' a 'Beth yw ystyr bywyd?'. Mae pob disgybl yn CA3 yn cael cyfle i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol e.e. defodau geni, dathliadau, straeon y creu a bywyd ar ôl marwolaeth. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau sylfaenol fel y rhai uchod a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn gwahanol ffyrdd yn sgîl eu credoau. Rhoddir y cyfle hefyd i bob disgybl yn ddiwahân i fynegi ymateb personol ar faterion megis "A ydych yn credu mewn gwyrthiau?' ac 'Mae bywyd yn rhy fyr i ddal dig. Dylid anghofio a maddau bob tro'. Maen nhw'n mwynhau ystyried eu barnau eu hunain a thrafod gwahanol safbwyntiau gyda'u cyfoedion yn y gwersi.

**Canlyniadau Asesiadau Athrawon CA3**

Mae canlyniadau CA3 yr Adran Addysg Grefyddol yn 2015 yn RHAGOROL. Gwelwyd cynnydd sylweddol yng nghyflawniadau'r Adran o ran $L5^+$, $L6^+$ a $L7^+$. Cafodd 90.2% o ddysgwyr $L5^+$ sy'n gynnydd ar 81.6% y llynedd, ac mae hyn yn uwch eleni na'r Sir (89.2%). Gwelwyd cynnydd o 19.2% dros y flwyddyn yma o ran y nifer o ddysgwr a gyflawnodd $L6^+$. Roedd gostyngiad y flwyddyn yma o 5.7% yn y nifer o ddysgwyr a gyflawnodd $L7^+$, er bod y ffigwr yn uchel ac yn cyrraedd 20.5%. Er hyn, mae bylchau yn bodoli ym mherfformiad dysgwyr gwahanol yn erbyn ei gilydd. Mae bwlch mawr o 10.5% rhwng perfformiad y bechgyn a merched. Roedd bwlch hefyd o 7.1% rhwng cyflawniad $L5^+$ dysgwyr PYD (85%) a'u cyfoedion (92.1%) a bwlch o 19.5% rhwng cyflawniad y dysgwyr ADY (76.9%) a'u cyfoedion (96.4%). Er y bylchau hyn, mae y rhan fwyaf o'r dysgwyr PYD (85%) a ADY (94.8%) wedi cyrraedd eu lefel darged gydag ychydig iawn o'r dysgwyr yn y ddau gategori yma'n rhagori ar eu targedau. Eleni, gwelwyd 100% o ddysgwyr PMG yn cyflawni $L5^+$.

## Cyfnod Allweddol 4

**Darpariaeth**

Dilynir y cwrs Manyleb B (CBAC) ar gyfer TGAU sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio'r rhain i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Cynigir gwersi Addysg Grefyddol statudol i bob disgybl yn CA4. Bydd rhai o'r gwersi yn cael eu

haddysgu fel rhan o gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig a thrafodir pynciau megis erthyliad, ewthanasia, urddas dynol, rhyfel a heddwch, priodas ac ysgariad. Yn ogystal â hyn cynigir gwersi Addysg Grefyddol ym Mlwyddyn 11 ble mae'r pwyslais ar gynnal trafodaeth ac ymdrin â phynciau megis perthnasoedd a chyfrifoldeb, hunaniaeth ddynol, sut mae crefydd a diwylliant yn ysbrydoli ymrwymiad, a lle, pwrpas a gwerth bywyd.

**Canlyniadau TGAU**

Mae canlyniadau TGAU yr Adran Addysg Grefyddol yn 2015 yn DDA. Gwelodd yr Adran fod pob dysgwyr yn llwyddo drwy gyrraedd 100% TL1 sy'n gymharol â pherfformiad TL1 y Sir o 100%. Gwelwyd cynnydd sylweddol o 16% ym mherfformiad TL2 ers y llynedd flwyddyn gyda 73% yn ei gyflawni eleni o gymharu â 57% yn 2014, er hyn ni lwyddwyd i gyrraedd targed mewnol yr ysgol o 91%. Gan mai dim ond 11 disgybl oedd yn sefyll yr arholiad TGAU eleni, mae un disgybl yn tangyflawni yn cael effaith o 9% i'r canlyniadau. Mae perfformiad TL2 y merched yn uwch (62.5%) o gymharu â llynedd (50%) ond yn is na merched y Sir. Roedd perfformiad TL2 y bechgyn wedi bod yn 100% yn 2013, 2014 ac eto yn 2015 sy'n sylweddol uwch na pherfformiad bechgyn y Sir (81%). Mae'r niferoedd a gyflawnodd graddau rhagoriaeth wedi lleihau ychydig ers y llynedd o 21.4% yn 2014 i 18.2% eleni ond mae'n sylweddol uwch na'r canran yn 2013 (9%).

## Cyfnod Allweddol 5

**Darpariaeth**

Dilynir y cwrs Safon Uwch CBAC ble y caiff y myfyrwyr gyfle i i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 (Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 (Astudio Bwdhaeth ac Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol).

Cynigir Addysg Grefyddol statudol drwy nifer o ffyrdd yng nghyfnod allweddol 5 e.e. drwy ran o'r Fagloriaeth Gymreig, gwersi ABaCh a Chymru Ewrop a'r Byd. Trafodir pynciau megis natur yn erbyn magwraeth, ystyr a phwrpas bywyd, perthynas a pherthnasoedd yn chwalu, Masnach Deg, gwahanol ffyrdd y gall gwledydd, un ai gyda'i gilydd neu'n unigol, weithio tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol.

**Canlyniadau Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch**

Mae canlyniadau CA5 2015 yr Adran Addysg Grefyddol yn DDIGONOL. Gwelwyd bod 75% o'r dysgwyr wedi cyflawni A*-E sy'n sylweddol is na'r 100% a gafodd raddau A*-E y llynedd. Llwyddodd 100% o'r bechgyn i gael A*-E yn yr Uwch a'r Uwch Gyfrannol. Mae'r canlyniadau eleni yn siomedig iawn o gymharu â'r Sir ond llwyddodd bron bob un disgybl i gyrraedd eu targedau mewnol er mor isel yr oeddynt.

## Materion i gael sylw

Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion PYD a'u cyd-ddisgyblion.
Atgoffa disgyblion yn gyson o'u targed yn y pwnc a'r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd eu potensial.
Parhau i ddatblygu tasgau heriol, diddorol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion Mwy Abl a Thalentog.
Sicrhau defnydd cyson o dagio ar system yr ysgol.
Parhau i gynnal profion rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu eu gwaith a chysylltu efo'r

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| cartref os yw'r disgyblion yn tangyflawni'n sylweddol mewn profion.<br>Disgyblion yn parhau i ymarfer ateb cyn-bapurau arholiad yn gyson a sicrhau digon o gyfleoedd i ymarfer ateb cwestiynau arholiad.<br>Treialu rhagor o strategaethau Datblygu Meddwl ac adolygu er mwyn codi safonau a chyflawniad y disgyblion. | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | **√** | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

**Addysg Grefyddol**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?**

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

**<u>Cyfnod Allweddol 3</u>**

Neilltuir dwy wers yr wythnos ar gyfer Addysg Grefyddol ym mlwyddyn 7 ac un wers yr wythnos ar gyfer y pwnc ym mlwyddyn 8 a 9.

Mae'r athrawon sy'n addysgu Addysg Grefyddol naill ai fel eu prif bwnc neu fel pwnc ychwanegol yn gyfarwydd â'r Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer cyflwyno addysg grefyddol. Maent yn adnabod y tri sgil craidd sef ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a mynegi ymatebion crefyddol.

Mae cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol wedi'u seilio ar ofynion y Fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ac yn ymgorffori'r tri sgil craidd yn y meysydd astudio.

Mae'r gweithgareddau wedi cael eu cynllunio'n ofalus gan gynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddatblygu ac adeiladu ar y sgiliau a gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgu blaenorol.

Erbyn diwedd CA3 mae'r disgyblion wedi cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth a phrif grefyddau'r byd a defnyddio'r rhain i ofyn ac ymateb i gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol a hynny drwy dri sgil craidd y pwnc. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymdrin â chwestiynau sylfaenol megis 'A oes bywyd ar ôl marwolaeth?' a 'Beth yw ystyr bywyd?'. Mae pob disgybl yn CA3 yn cael cyfle i archwilio credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol e.e. defodau geni, dathliadau, straeon y creu a bywyd ar ôl marwolaeth. Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am ymatebion crefyddol gwahanol i gwestiynau sylfaenol fel y rhai uchod a pham mae pobl yn byw eu bywydau mewn gwahanol ffyrdd yn sgîl eu credoau. Rhoddir y cyfle hefyd i bob disgybl yn ddiwahân i fynegi ymateb personol ar faterion megis "A ydych yn credu mewn gwyrthiau?' ac 'Mae bywyd yn rhy fyr i ddal dig. Dylid anghofio a maddau bob tro'. Maen nhw'n mwynhau ystyried eu barnau eu hunain a thrafod gwahanol safbwyntiau gyda'u cyfoedion yn y gwersi.

Ceir nifer fawr o adnoddau o fewn yr adran e.e. llyfrau, dvds, rhaglenni cyfrifiadurol, nifer fawr o arteffactau. Benthycir yr arteffactau yn aml i ysgolion cynradd lleol.

Bydd disgyblion Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel lleol yn flynyddol a bydd y casgliad yn mynd at elusen o ddewis y Cyngor Ysgol.

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i ymweld â chapel ac eglwys yn y pentref a gofynnir i siaradwyr gwadd ddod i'r ysgol yn achlysurol.
Gwahoddir elusennau megis Operation Christmas Child i mewn i'r ysgol ac anogir y disgyblion i gyfrannu drwy wneud bocsys ar gyfer y plant sydd mewn angen.

Cynhelir Wythnos Sgiliau yn flynyddol yn Ysgol Uwchradd Bodedern sy'n cynnwys gweithgaredd codi ymwybyddiaeth o waith Masnach Deg i ddisgyblion Blwyddyn 8 a gweithdai gan Gymorth Cristnogol a'r Groes Goch.

## Cyfnod Allweddol 4

Neilltuir 3 gwers yr wythnos ar gyfer gwersi TGAU Astudiaethau Crefyddol.
Addysgir y gwersi TGAU gan y Pennaeth Pwnc sydd yn meddu ar radd mewn Astudiaethau Crefyddol.
Dilynir y cwrs Manyleb B (CBAC) ar gyfer TGAU sy'n rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth o Gristnogaeth ac Iddewiaeth a defnyddio'r rhain i ymateb i gwestiynau moesegol a chrefyddol.

Cynigir gwersi Addysg Grefyddol statudol i bob disgybl yn CA4. Bydd rhai o'r gwersi yn cael eu haddysgu fel rhan o gymhwyster y Fagloriaeth Gymreig a thrafodir pynciau megis erthyliad, ewthanasia, urddas dynol, rhyfel a heddwch, priodas ac ysgariad. Yn ogystal â hyn cynigir gwersi Addysg Grefyddol ym Mlwyddyn 11 ble mae'r pwyslais ar gynnal trafodaeth ac ymdrin â pherthnasoedd chyfrifoldeb, hunaniaeth ddynol, sut mae crefydd a diwylliant yn ysbrydoli ymrwymiad, a lle, pwrpas a gwerth bywyd.

Sicrheir y bydd y disgyblion yn cael digonedd o gyfle i ymarfer cyn-bapurau arholiad yn y gwersi ac yn cael profion rheolaidd er mwyn paratoi'r disgyblion yn drwyadl ar gyfer yr arholiad.

Rhoddir y cyfle i'r disgyblion sy'n dilyn y pwnc ar gyfer TGAU i ymweld â synagog yn Lerpwl a chapel ac eglwys Bodedern.

## Cyfnod Allweddol 5

Neilltuir 4 gwers yr wythnos ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch Astudiaethau Crefyddol.
Addysgir y gwersi Safon Uwch Gyfrannol ac Uwch gan y Pennaeth Pwnc sy'n meddu ar radd mewn Astudiaethau Crefyddol.

Dilynir y cwrs Safon Uwch Gyfannol ac Uwch CBAC ble y caiff y myfyrwyr gyfle i i astudio dwy uned ym mlwyddyn 12 (Cyflwyniad i Fwdhaeth a Chyflwyniad i Iddewiaeth) a dwy uned ym mlwyddyn 13 (Astudio Bwdhaeth ac Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol).

Sicrheir y bydd y disgyblion yn cael digonedd o gyfle i ymarfer cyn-bapurau arholiad yn y gwersi ac yn cael profion rheolaidd er mwyn paratoi'r disgyblion yn drwyadl ar gyfer yr arholiad.

Bydd y myfyrwyr sy'n dilyn y pwnc i safon UG ac Uwch yn cael y cyfle i fynd ar ymweliad â'r Ganolfan Fwdhaidd ym Manceinion yn flynyddol a threfnir ymweliad ag Auschwitz yng Ngwlad Pŵyl bob dwy flynedd ar y cyd efo'r Adran Hanes.

Cynigir Addysg Grefyddol statudol drwy nifer o ffyrdd yng nghyfnod allweddol 5 e.e. drwy ran o'r Fagloriaeth Gymreig, gwersi ABaCh a Chymru Ewrop a'r Byd. Trafodir pynciau megis natur yn

erbyn magwraeth, ystyr a phwrpas bywyd, perthynas a pherthnasoedd yn chwalu, Masnach Deg, gwahanol ffyrdd y gall gwledydd, un ai gyda'i gilydd neu'n unigol, weithio tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol.

Bydd myfyrwyr Blwyddyn 12 ac 13 yn cyfrannu'n achlysurol at addoliad ar y cyd ac yn helpu gyda'r gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Bydd pob disgybl CA5 yn mynychu'r gwasanaethau addoli ar y cyd.

**Materion i gael sylw**

Cau'r bwlch rhwng cyflawniad disgyblion PYD a'u cyd-ddisgyblion.
Denu mwy o ddisgyblion i ddewis y pwnc i safon TGAU a Safon UG ac Uwch.
Atgoffa'r disgyblion yn gyson o'u targed yn y pwnc a'r hyn sydd angen ei wneud i gyrraedd eu potensial.
Sicrhau defnydd cyson o dagio ar system yr ysgol.
Parhau i gynnal profion rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu eu gwaith a chysylltu efo'r cartref os yw'r disgyblion yn tangyflawni'n sylweddol mewn profion.
Disgyblion i barhau i ymarfer ateb cyn-bapurau arholiad yn gyson a sicrhau digon o gyfleoedd i ymarfer ateb cwestiynau arholiad.
Treialu rhagor o strategaethau Datblygu Meddwl ac adolygu er mwyn codi safonau a chyflawniad y disgyblion.

| **Rhagorol** | | **Da** | √ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

**Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio a'r gofynion statudol? Ydy √**

Darperir Addoli ar y Cyd sydd yn dilyn traddodiad cyffredin y gred Gristnogol yn bennaf ac yn adlewyrchu arferion a thraddodiadau crefyddol ein hardal a'n gwlad yn ddyddiol yn yr Ysgol. Cynhelir yr Addoliad ar y cyd ar lefel ysgol gyfan (Cynulliad boreol) bedwar bore'r wythnos ac ar lefel dosbarth (gwasanaeth ar yr aelwyd) bob bore Mercher. Y mae'r gwasanaethau yn cyfrannu at ddealltwriaeth y disgyblion o faterion moesol ac ysbrydol ac yn eu helpu i barchu amrywiaeth, gwirionedd, cyfiawnder, hawliau a chyfrifoldeb yn ogystal â meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos o barch sy'n greiddiol i Ysgol Uwchradd Bodedern.

Bydd pob athro, uwch gymhorthydd yn ogystal â myfyrwyr y Brifysgol yn cael gwahoddiad i gymryd cyfrifoldeb am wasanaeth yn eu tro felly hefyd pob Llys (dosbarth). Nodir hyn ar galendr yr ysgol. Ceir canllawiau clir i'r staff ynghyd ag awgrymiadau am themâu yn Llawlyfr y Gweithlu. Ceir stoc o wasanaethau parod ar system gyfrifiadurol yr ysgol ond anogir pob un i ddewis eu testun eu hunain er mwyn sicrhau amrywiaeth.

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i wneud un neu sawl un o'r canlynol yn ystod yr addoliad :

- Myfyrio drwy wrando ar gyflwyniad / darlleniad gan aelod o staff neu siaradwr gwadd
- Myfyrio drwy wylio cyflwyniad electronig ar y bwrdd gwyn e.e. sioe sleidiau, darn o ffilm
- Gweddïo
- darllen

| |
|---|
| Rhoddir yr hawl i rieni esgusodi eu plant o'r addoliad a chymerir i ystyriaeth eu cefndir wrth ddarparu ar gyfer yr addoliad. Yn yr un modd, gofynnir i unrhyw aelod o'r gweithlu sydd â gwrthwynebiad cydwybodol i fynychu gwasanaeth crefyddol i hysbysu'r Pennaeth. Prin iawn yw'r eithrio hyn yn Ysgol Uwchradd Bodedern.<br><br>Ar y cyfan mae addoli ar y cyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y dysgwyr. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar AbaCh, Datblygiad Cynaliadwy, Dinasyddiaeth Fyd-eang a gwaith elusennol fel rhan o'r addoliad ynghyd â dathlu llwyddiannau unigolion, grwpiau o ddisgyblion ac ar lefel ysgol gyfan.<br><br>Ar y cyfan mae'r ddarpariaeth yn dda gyda rhai agweddau rhagorol. |
| **Materion i gael sylw**<br>• **efelychu'r arferion rhagorol ymhob gwasanaeth** |

| **Rhagorol** | | **Da** | **√** | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

# Gwella / adran 50

# Arolygiad Statudol

# O

# Eglwysi'r Eglwys yng Nghymru

# (GWELLA)

## **Model Dogfen Hunan-Arfarniad**

Fersiwn adolygedig  Medi 2013

Mae hunan-arfarniad o wahanolrwydd ysgol eglwysig yn aros cyn bwysiced ag erioed ac anogir ysgolion i fod yn greadigol wrth iddynt geisio arddangos effaith eu cymeriad Cristnogol ar fywyd dyddiol yr ysgol. Gall cwblhau dogfen hunan-arfarnu fod o Gymorth i athrawon, llywodraethwyr ac, wrth gwrs, arolygwyr ysgol.

Mae ysgolion yn dod yn gynyddol greadigol yn eu defnydd o hunan-arfarniad yn defnyddio, er enghraifft, ffotograffau, mapiau meddwl a gwerthoedd Cristnogol, yn ychwanegol at ffurfiau mwy traddodiadol o arfarnu, er mwyn asesu effaith cymeriad eu hysgol. Mae'r ddogfen hon yn ceisio caniatáu i'r creadigrwydd hwnnw ffynnu drwy beidio â bod yn or-ragnodol; gan adael llawer i broffesiynoldeb y pennaeth a'r staff.

Dylai prif ffocws arfarnu llwyddiannus bob amser fod ar yr effaith. Tra bo ysgolion yn briodol falch o'r pethau y maent wedi eu darparu ar gyfer eu plant y gwahaniaeth a wneir gan y ddarpariaeth hon sydd o bwys mewn gwirionedd.

Ni fydd arolygwyr ysgolion yr Eglwys yn disgwyl i'r ddogfen hon ddweud holl hanes ysgol ac ni ddylai ysgolion deimlo o dan bwysau i wneud hynny. Bydd yr arolygwr yn casglu ystod o dystiolaeth hunan-arfarnu ar y safle a all gynnwys casgliadau gyda nodiadau o ffotograffau; mapiau meddwl; llyfrau myfyrio dosbarth ayyb. Bydd hyn, ynghyd â thrafodaethau, arsylwadau a dogfennaeth arall yn galluogi i arolygwyr asesu cywirdeb arfarniadau'r ysgol ei hunan.

Mae ysgolion yn rhydd i ddyfeisio'u ffyrdd eu hunain o grynhoi arfarnu gwahanolrwydd yr ysgol. Gall esgobaethau hefyd gynnig eu harweiniad eu hunain. Cynigir y ddogfen hon gan y Gymdeithas Genedlaethol fel model y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r Amserlen Arfarnu Arolygiadau (Tachwedd 2013). Mae wedi ei dreialu gan ysgolion a chafodd llawer o ysgolion ef o fudd.

**Hunan-arfarniad**

**Adolygwyd Gorffennaf 2016**

**Enw'r ysgol: Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis**

## CYD-DESTUN YR YSGOL

Mae hwn yn gyfle i chi ddarparu ychydig o bwyntiau bwled i esbonio cyd-destun eich ysgol.
*[Gallech ddymuno gwneud sylwadau ar: Statws yr ysgol ( yn cynnwys unrhyw newid diweddar mewn statws a chytundeb ariannu) NAG; amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd; newidiadau staffio; disgyblion gydag anableddau/ anawsterau dysgu ayyb.]*

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru yw Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, a saif ym mhlwyf Caergybi. Mae'r ysgol yn ardal Dalgylch Cymunedau Cyntaf.
Ceir 110 o ddisgyblion llawn amser a 21 o ddisgyblion meithrin rhan-amser. Maent wedi eu trefnu yn 5 dosbarth, 2 yn CA2 a 3 yn y CS. Mae'r ysgol hefyd yn darparu dosbarth anghenion dysgu ychwanegol sy'n hwyluso dalgylch Caergybi. Yn ychwanegol mae gennym hefyd ddosbarthiadau ychwanegol wedi eu gosod yn grwpiau targed gyda throsiant disgyblion a dargedir o'r prif ddosbarthiadau.
Gan fod yr ysgol mewn ardal 'Dechrau'n Deg' ac mae ganddi Gylch Meithrin,
Mae pawb ond ychydig o'n disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith ac mae ychydig o deuluoedd o leiafrifoedd ethnig.
Mae gennym 44% o ddisgyblion ar brydau ysgol di-dâl sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r teulu.
Mae gennym 18.18% o blant ar y gofrestr Anghenion dysgu Ychwanegol. Mae 5.4% ar ddatganiad.

## GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD YR YSGOL

*[Gallech ddymuno tynnu ar neu gynnwys datganiad o genhadaeth ysgol, datganiad o werthoedd neu amcanion yr ysgol fel y cytunwyd gan y gymuned ysgol.]*

**"Yr Ysgol a'r Gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i hybu Gwerthoedd Cristnogol"**

Mae gweledigaeth yr ysgol yn seiliedig ar y saith Gwerth Cristnogol.
Gobaith, Heddwch, Doethineb, Cyfeillgarwch, Diolchgarwch, Parch, Dyfalbarhad

Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd y bartneriaeth rhwng y disgybl, yr ysgol, y cartref a'r gymuned. Mae'r ysgol yn argyhoeddiedig bod gan riant/gwarchodwyr rôl hanfodol i'w chwarae yn addysg eu plant. Mae'r bartneriaeth rhwng rhieni/gwarchodwyr ac athrawon yn gweithio gyda'i gilydd yn cael ei adnabod i fod yn ffactor llesol mewn cynorthwyo ysgolion i fynd rhagddynt a datblygiad yn yr ysgol. Mae gan yr ysgol wahanolrwydd arbennig, mae'r synnwyr o fod yn rhan o deulu mwy yn atgof o bwrpas sedfydliad yr ysgol.

Rydym yn darparu amgylchedd ysgol hapus, lle mae pob disgybl, beth bynnag fo'u cefndir neu eu gallu, yn cael y cyfle i ddatblygu i'w llawn botensial.

Rydym yn paratoi ein disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n cymryd rhan weithredol o fewn eu cymuned.

### ***Ethos yr Ysgol***

Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn gobeithio bod pawb sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ysgol yn teimlo eu bod yn aelodau o gymuned yr ysgol a nodweddir gan bryder cariadus tuag at ei gilydd. Gobeithiwn y bydd pob disgybl yn hapus ac yn darganfod bod cymuned gariadus a chyfeillgar yn bodoli yma a fydd yn caniatáu iddynt dyfu a ffynnu. Gobeithir hefyd y

byddant yn yr un modd, yn gallu gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol.

Rydym yn ymfalchïo bod ymwelydd â'r ysgol yn cydnabod synnwyr o'r Ethos Cristnogol hapus sy'n bodoli yma. O ganlyniad i hyn, mae teuluoedd newydd yn setlo ac yn bod yn rhan o'n cymuned ysgol yn gyflym ac yn llyfn.

Mae pob dosbarth yn ymffrostio mewn awyrgylch weithio brysur a atgyfnerthodd gan arddangosiadau lliwgar a rhyngweithiol o waith plant. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd gwahoddgar i ddisgyblion ddysgu.

Mae'r athrawon a'r staff cefnogi yn yr ysgol yn ymroddedig i ddatblygu ein disgyblion. Rydym yn disgwyl safonau uchel mewn ymddygiad ac ymdrech ar bob achlysur.

Mae'r Cwricwlwm a gweithgareddau cynlluniedig eraill yn datblygu dealltwriaeth o ddatblygiad ysbrydol, diwylliannol a chymdeithasol.

## CRYNODEB

Mewn oddeutu 50 o eiriau crynhowch wahanolrwydd ac effeithlonrwydd eich ysgol fel ysgol eglwysig

Mae Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis yn gwasanaethu ei chymuned drwy ddarparu addysg o'r safon uchaf o fewn Ethos Cristnogol.
Mae Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis yn amgylchedd hapus, gofalgar a diogel sy'n meithrin ac yn datblygu Gwerthoedd Cristnogol.
Y rheol aur a atgyfnerthir yn gyson gyda'r disgyblion yw pwysigrwydd parch tuag at ei gilydd.

**CYNNYDD MEWN YMROI I'R FFOCWS AR GYFER DATBLYGU YN YR AROLYGIAD BLAENOROL**

Gall ysgolion ddymuno ychwanegu pwyntiau pellach os bydd yn ofynnol

***Ffocws ar gyfer datblygiad 1: Cynnal safonau uchel mewn Cydaddoli***
*(Perthynol i Gwestiynau allweddol 1 2 3 4)*

| Gweithredu a wnaed | Effaith |
|---|---|
| Cynnal y safonau a osodwyd. | Mae cydaddoli yn effeithiol ac yn cael ei barchu ac mae iddo le pwysig yn yr Ysgol. |
| Ymweld ag Ysgolion Eglwysig eraill i ennill arfer dda mewn Addoli ar y Cyd. | Mae'r disgyblion yn cymryd mwy o ran mewn Cynllunio ac yn adrodd ar Addoli ar y cyd. |
| Mabwysiadu cynlluniau Addoli ar y cyd Esgobaerth Swydd Lincoln. | Mae syniadau newydd wedi ymrwymo disgyblion ymhellach mewn Addoli ar y cyd. |
| Mabwysiadu CD "Duw Ein Tad" a ddarparwyd gan yr Eglwys yng Nghymru. | Mae mwynhad y disgyblion mewn canu wedi gwella a gellir gweld cyfranogiad gan bawb. |

***Ffocws ar gyfer Datblygiad 2: Cynnal safonau uchel mewn addysgu Astudiaethau Crefyddol***
*(Perthynol i Gwestiwn allweddol 1 2 3 4)*

| Gweithredu a wnaed | Effaith |
|---|---|
| Arfarnu cynlluniau presennol i sicrhau eu bod wedi eu halinio gyda rhaglen ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. | Mae strwythur clir wedi canolbwyntio addysg y myfyrwyr a chyflawniad uwch |
| Craffu ar gyfer gwaith disgyblion . | Sicrhau bod safonau'n cael eu cadw ym mhob dosbarth ac y cynhelir cyflawniad disgyblion. |
| Arsylwi addysgu a dysgu AG. | Sicrhau safonau uchel mewn addysgu AG yn unol â chynllunio newydd. |
| Hunan-arfarnu AG | Adnabod meysydd ar gyfer gwella a datblygu mewn AG. |
| Datblygu gweithdrefnau cyrhaeddiad/asesu ar gyfer addysg grefyddol | Mae gwersi AG yn sicrhau datblygu sgiliau yn unol â deilliannau a lefelau. |
| Creu ffolder o waith AG disgyblion | Mae tystiolaeth yn dangos datblygiad disgyblion o sgiliau o N – Bl6 |

***Ffocws ar gyfer Datblygu 3: Rhoddwyd cyfleoedd hyfforddi i staff ar addysgu Addysg Grefyddol yn dilyn Maes Llafur yr Eglwys yng Nghymru***
*(Perthynol i Gwestiwn Allweddol 1 2 3 4)*

| Gweithredu a wnaed | Effaith |
|---|---|
| Darparwyd hyfforddiant Chwarae Duwiol i ddau athro sydd wedi rhaeadru i aelodau o'r staff. | Mae cyfranogiad disgyblion a mwynhad wedi ffynnu o dan y cynllun Chwarae Duwiol. Mae'n caniatáu mwy o amser ar gyfer myfyrio a mwy o amser i ddisgyblion eu mynegu eu hunain. Mae'r disgyblion yn ennill gwybodaeth ffeithiol dda o storïau o'r Beibl a'r gwerthoedd y maent yn eu cynnig. |

**CWESTIWN ALLWEDDOL 1**

**Pa mor dda y mae'r ysgol, drwy ei chymeriad Cristnogol arbennig , yn cyfarfod ag anghenion pob dysgwr?**

**HUNAN-ARFARNIAD YSGOL: Da**

**Tystiolaeth ysgol seiliedig ar ddeilliannau disgybl:**

Sylwadau ar:

- Cyflawniad Dysgwyr
- Gwerthoedd Cristnogol
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol
- Perthnasoedd
- Dealltwriaeth o gymunedau amryfal a pharch tuag atynt
- Addysg Grefyddol

**Cymerir yr anogaethau hyn o Amserlen Arfarniad Gwella/Adran 50 lle deuir o hyd i fanylion pellach**

**Rhesymau am y radd (effaith a darpariaeth)**

Gweledigaeth yr ysgol yw darparu amgylchedd sy'n sicrhau bod pob disgybl yn ffynnu. Canlyniad ein cyfundrefn dracio (asesiad athro, INCERTS, profion cenedlaethol a phrofion mewnol) yn dangos bod yr holl ddisgyblion wedi gwneud cynnydd yn eu targedau personol ac maent wedi adeiladu ar gyrhaeddiad blaenorol. Mae hyn wedi ei gyflawni drwy wybodaeth drwyadl o'r disgyblion a'u hanghenion a'r berthynas ardderchog gyda'r disgyblion. Mae'r arsylwad gwersi a'r craffu llyfrau yn dangos bod gan y disgyblion agwedd gadarnhol tuag at eu dysgu.

Mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i wella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion drwy weithredu polisi mynediad a gweithio'n agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol. O ganlyniad mae presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n fawr. Presenoldeb yr ysgol ar gyfer y flwyddyn addysgol 2014/15 oedd 93.2% ac eleni rydym yn agos at ein targed,ac mae presenoldeb yn 95.4% hyd yma. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae polisi ymddygiadol yr ysgol, a adolygir yn flynyddol, ac Ethos Cristnogol cryf yr ysgol a hybir drwy'r gwersi AG, ABACH ac Addoli ar y cyd wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad disgyblion a goddefgarwch a pharch tuag at bawb. O ganlyniad ni fu unrhyw waharddiadau penodol na pharhaol yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio nac adrodd am unrhyw ddigwyddiadau hiliol neu fwlio am y tair blynedd a aeth heibio.

Mae'r ysgol yn gweithio'n galed i sicrhau gwerthfawrogiad o'n treftadaeth Gymraeg a Christnogol ac mae hyn wedi creu Sylfaen gref i werthfawrogi diwylliannau eraill. Mae cysylltiad wedi ei sefydlu rhwng ein hysgol ac ysgol Olilio yn Uganda ers 2011 yn dilyn ymweliad gan glerigion o Uganda ac yna'n ddilynol ymweliad dychwelyd gan y Pennaeth yn Haf 2014. Codwyd arian yn rhan o daith yr esgobaeth i Uganda. Mae hyn wedi cefnogi dealltwriaeth a pharch y disgyblion o ddiwylliannau gwahanol.

Rydym wedi cefnogi nifer o elusennau, er enghraifft gwerthu eirth Burundi i brynu briciau i adeiladu ysgolion. Yn ystod Diolchgarwch bu i ni hefyd gasglu bwyd a roddwyd i'r banc bwyd lleol Mae hyn wedi sicrhau dealltwriaeth y disgyblion o'u rôl fel Cristnogion i gynorthwyo a chefnogi eraill.

Cryfheir cysylltiadau'r ysgol gyda'r Eglwys gan wirfoddolwyr sy'n dod i gynorthwyo mewn gweithgareddau yn yr ysgol. Mae enghreifftiau'n cynnwys, cynnal gardd yr ysgol, darllen gyda disgyblion a rhedeg Stepping Stones (Clwb dydd Sul ar ôl ysgol). Mae'r ysgol yn arwain gwasanaethau wythnosol a ddarperir gan Glerigion o Eglwys Cybi Sant. Hefyd cawn ymweliadau rheolaidd gan aelodau'r Eglwys yn darparu storïau Beiblaidd drwy 'Agorwch y Llyfr'. Mae hyn wedi cael effaith ar wybodaeth y disgyblion o storïau Beiblaidd a'u hystyron ac wedi cefnogi disgyblion i gysylltu'r gwerthoedd hyn yn eu bywydau eu hunain.

Mae'r ysgol yn ymweld ag Eglwys Cybi Sant er mwyn cryfhau'r cyswllt rhwng yr ysgol a'r Eglwys. Mae disgyblion yn mynychu'r Eglwys i ddathlu Diolchgarwch, Dydd Mercher Lludw, Gorsafoedd y groes, Dydd Cybi Sant a Dydd

Dyrchafael. Mae Blwyddyn 6 hefyd yn mynychu diwrnod yng Nghadeirlan Bangor i ddathlu eu llwyddiant ysgol gynradd. O ganlyniad mae disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth dda o'r Calendr Cristnogol.

Mae darpariaeth ABACH yr ysgol yn cynnwys ein haddoli ar y cyd yn hybu gwerthoedd Cristnogol megis gonestrwydd , goddefgarwch, chwarae teg a pharch. Mae hwn o safon ardderchog. Rydym hefyd yn darparu cornel fyfyrio lle'r arddangosir gwaith AG ac sydd hefyd yn rhoi'r cyfle i ddisgyblion fyfyrio ac arfarnu.

Mae'r ysgol yn dilyn maes llafur yr Eglwys yng Nghymru ac mae hyn yn gosod pwyslais ar ddatblygu dealltwriaeth y disgybl o werthoedd Cristnogaeth.Mae gwybodaeth a dealltwriaeth y disgybl o storïau o'r Beibl a'u negesau'n dda iawn. Mae hyn wedi ei gynorthwyo gan gynhwysiad Chwarae Duwiol.

**Cryfderau Allweddol**

- Mae addoli ar y cyd yn sicrhau ethos Cristnogol cryf o fewn yr ysgol.
- Mae cysylltiadau â'r gymuned yn cyfoethogi dysgu.
- Arddangosir gwaith y disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned leol.
- Rydym yn casglu holiaduron disgyblion a rhieni'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn hapus gyda'r ysgol.
- Amgylchedd hapus a chartrefol yn Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis.

**Pwyntiau datblygu**

- mireinio asesu Addysg Grefyddol
- mireinio cynllunio i sicrhau yr hybir ysgrifennu estynedig o fewn AG (o gadw mewn cof y fframwaith llythrennedd newydd)

## CWESTIWN ALLWEDDOL 2

**Beth yw effaith addoli ar y cyd ar gymuned yr ysgol?**

**HUNAN-ARFARNIAD YSGOL: DA**

**Tystiolaeth ysgol yn seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:**

Sylwadau ar:

- Effaith addoli ar y cyd
- Priodoleddau creiddiol addoli ar y cyd
- Creiddioldeb gweddi a myfyrdod
- Sail ddiwinyddol addoli ar y cyd
- Arweinyddiaeth a rheolaeth addoli ar y cyd

**Cymerir yr anogaethau hyn o Amserlern Arfarnu Gwella/Adran 50 lle deuir o hyd i fanylion pellach**

**Rhesymau am y radd (effaith a darpariaeth)**

Yn Ysgol Y Parchedig Thomas Ellis, edrychir ar y weithred ddyddiol o addoli ar y cyd fel rhan gyfunol a phwysig o fywyd yr ysgol. Mae addoli'r ysgol yn seiliedig ar hybu'r gwerthoedd Cristnogol sy'n treiddio i ethos yr ysgol. (Gweler y polisi addoli ar y cyd am ddisgrifiad llawn)

Mae addoli ar y cyd yn sicrhau parhad, amryfaliaeth a ffocws clir ar y credoau a'r calendr Cristnogol. Cenir amrywiaeth o emynau yn ein gwasanaethau a goleuir cannwyll yn symbol ac atgof o'r Iesu'n dod â goleuni i'n byd. Anogir disgyblion i anfon y goleuni i gyfeillion neu aelodau o'r teulu. Drwy addoli ar y cyd anogir disgyblion i gyfrannu, rhannu teimladau a myfyrio ar yr hyn a drafodir. Caiff disgyblion y cyfle hefyd i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a bywydau eraill, ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd a myfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Rhoddir cyfleoedd hefyd i gwestiynau a thrafodir materion sy'n codi yn ein hysgol, y gymuned a'r byd ehangach. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi i ddisgyblion drafod eu teimladau, gwrando ar eraill a pharchu safbwyntiau a phersbectifau eraill a gweld gwerth ynddynt.

Mae addoli ar y cyd yn darparu cyfle i ganmol gwaith da, presenoldeb da, ymddygiad da, talentau a chyflawniadau ac mae hyn yn atgyfnerthu agwedd gadarnhaol. Drwy addoli ar y cyd mae'r disgyblion yn ennill hunan werth sy'n eu galluogi i sylweddoli eu potensial llawn. Mae addoli ar y cyd yn galluogi cysylltiadau cryf gyda'r gymuned leol.

Mae ymweliadau aml gan aelodau o'r Eglwys a'r gymuned leol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o draddodiadau diwylliannol Cymru ynghyd â diwylliannau eraill y Byd. Perir bod disgyblion yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb cymdeithasol a hybir drwy waith dyniaethol ar gyfer nifer o elusennau e.e Operation Christmas Child, Anfonwch fuwch, Eirth Brundi.

Mae'r Staff yn gwerthfawrogi pwysigrwydd addoli ar y cyd a'i effaith gadarnhaol ar eu lles. Mae'r ethos Cristnogol cryf yn caniatáu ar gyfer amgylchedd gwaith tîm cynhyrchiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar y disgyblion.
Yn ystod Addoli ar y Cyd chwaraeir cerddoriaeth i greu awyrgylch sy'n hyrwyddo addoli a myfyrio. Mae cydaddoli bob amser yn cynnwys amser gweddi a myfyrdod/neu fyfyrdod . Defnyddir ystod o weddïau yn cynnwys Gweddi'r Arglwydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus wrth fynegi eu credoau ysbrydol.
Mae'r disgyblion yn adnabod symbolau crefyddol ac yn parchu traddodiadau'r Eglwys o ganlyniad i

Addoli ar y Cyd.

Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o werthoedd Cristnogol ac maent yn gallu ymgorffori'r rhain yn eu bywyd dyddiol. Mae mwyafrif y disgyblion, erbyn diwedd y CS yn cyrraedd deilliant 5 mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amryfaliaeth Ddiwylliannol. Erbyn diwedd CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 mewn AG. Mae hyn yn amlygu bod cydaddoli'n chwarae rhan bwysig mewn datblygu'r "plentyn cyfan". Mae'r materion moesol a godir mewn addoli ar y cyd yn sicrhau bod gan ddisgyblion werthfawrogiad cryf o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredu. Mae cyfraniadau disgyblion mewn cydaddoli yn datblygu eu hyder mewn perfformio o flaen cynulleidfaoedd.

Ar y cyfan mae Addoli ar y Cyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at y disgyblion, y staff a'r gymuned ehangach, gan eu datblygu'n ysbrydol, yn foesol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

**Cryfderau allweddol**
- Mae addoli ar y cyd yn rhan gyfunol o'r ysgol.
- Mae Addoli ar y Cyd yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion, staff a'r gymuned ehangach.
- Mae gwybodaeth a enillir drwy Addoli ar y Cyd wedi ei wreiddio yn y disgybl.

**Pwyntiau datblygu**
- Parhau i wreiddio polisi a fframwaith Addoli ar y Cyd.

## CWESTIWN ALLWEDDOL 3
**Pa mor effeithiol yw Addysg Grefyddol?**

**HUNAN-ARFARNIAD YSGOL**: Da

**Tystiolaeth ysgol wedi ei sylfaenu ar ddelliannau disgybl:**

Sylwadau ar:
- Cynnydd a safonau seiliedig ar ddata perfformiad yr ysgol
- Ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Ansawdd y cwricwlwm
- Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn AG

**Cymerir yr anogaethau hyn o Amserlen Arfarnu Gwella/Adran 50 lle deuir o hyd i fanylion pellach**

**Rhesymau am y radd (effaith a darpariaeth)**

Dangosodd monitro addysgu a dysgu bod addysgu Addysg Grefyddol yn gyson dda ac mae disgyblion yn datblygu o ganlyniad i hyn. Gweler yr arsylwadau gwersi am fwy o fanylion. Mae gwersi AG wedi eu hasesu gan gydranddalwyr yn cynnwys yr Esgob, y Canon Robert Townsend, Llywodraethwyr ac Uwch-Reolwyr. Roeddent i gyd yn hapus gyda chynnwys a chyflawniad yn y gwersi hynny.

Mewn gwasanaethau diweddar a ddarparwyd gan asiantaethau allanol,maent wedi nodi gallu'r disgybl mewn dwyn i gof a chadw gwybodaeth AG i fod o safon dda.

Mae data asesu Incerts ar gyfer haf 2016, yn adrodd bod 18/24 - 75% o'r disgyblion wedi cyflawni cyfartaledd o Ddeilliant 5+ yn y ddwy agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol sydd ag agweddau perthynol i AG yn y CS.
Mae data asesu Incerts ar gyfer haf 2016, yn adrodd bod 3/6 50% o'r disgyblion wedi cyflawni Lefel

4+ ar gyfer AG yn CA2.
Bu i'r disgyblion na chyflawnodd lefelau cenedlaethol disgwyliedig gyflawni lefelau personol disgwyliedig.

Cafodd AG ei gynllunio dros gylch o ddwy flynedd ar gyfer pob dosbarth. Mae'r ysgol yn dilyn maes llafur yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r maes llafur yn ymgorffori pob agwedd ar werthoedd Cristnogol ac mae felly'n sicrhau dull cytbwys tuag at ddysgu. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn adolygu ei dull o addysgu mewn AG er mwyn iddo fod yn fwy o ddull trawsgwricwlaidd.

Mae gan bob dosbarth fynediad i ddeunyddiau AG. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd llawn o adnoddau allanol gan y Clerigion a'r Esgobaeth er mwyn cefnogi'r dysgu.

Mae craffu ar waith y disgyblion yn dangos bod y disgyblion yn datblygu'n dda mewn AG, fodd bynnag credir bod angen rhoi mwy o gyfleoedd i ddatblygu ysgrifennu estynedig o fewn AG.

**Cryfderau Allweddol**
Mae gwybodaeth y disgybl o AG yn dda.
Addesir cynllunio'n gyson at anghenion y dysgwyr.

**Pwyntiau datblygu**
Addasu cynlluniau i gynnwys dull mwy trawsgwricwlaidd.

**CWESTIWN ALLWEDDOL 4**
**Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol a rheolaeth yr eglwys fel ysgol eglwysig?**

**HUNAN-ARFARNU YSGOL**: Da

**Tystiolaeth ysgol seiliedig ar ddeilliannau disgyblion:**

Sylwadau ar:
- Gweledigaeth Gristnogol
- Arfarniad a chynllunio strategol
- Arweinyddiaeth bellach o ysgolion eglwysig
- Partneriaeth â chydranddalwyr allweddol

**Cymerir yr anogaethau hyn o Amserlen Arfarnu Gwella/Adran 50 lle deuir o hyd i fanylion pellach**

**Rhesymau am y radd (effaith a darpariaeth)**

Mae gan yr ysgol weledigaeth Gristnogol gref. Crewyd a thrafodwyd hyn gan deulu'r ysgol. Mae Addoli ar y Cyd a gwersi AG yn seiliedig ar yr ethos Cristnogol sy'n sylfaen ar gyfer ein gweledigaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion drafod ac ymestyn eu gwybodaeth, a mynegi gwerthoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd.

Mae ansawdd hunan-arfarniad a chynllunio ar gyfer gwelliant yn dda iawn ac yn gyflawn

Mae gan yr ysgol strwythurau hunan-arfarnu wedi eu sefydlu'n dda ac sy'n eithriadol o effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol er mwyn gwella ansawdd ei darpariaeth a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

Mae'r pennaeth, y dirprwy Bennaeth a phob arweinydd cwricwlaidd yn ymweld â gwersi mewn ffordd systematig, gan ganolbwyntio ar elfennau penodol sy'n bwysig ar gyfer strategaeth ysgol. Maent yn adnabod cryfderau a diffygion o fewn yr ardaloedd y maent yn gyfrifol amdanynt, er mwyn cynllunio ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Mae'r CDY cyfansawdd wedi ei sylfaenu'n gadarn ar gyfundrefn hunan-arfarniad yr ysgol.

Ceir amserlen fanwl 3 blynedd i sylweddoli blaenoriaethau a 2 faes cwricwlaidd ac asesir un arfarniad ysgol-gyfan bob tymor – (mae hyn yn hyblyg er mwyn delio ag unrhyw fater sydd angen sylw uniongyrchol) ac mae pob arweinydd cwricwlaidd yn gyfrifol am arwain yr arfarniad o fewn ei bwnc/bynciau/phwnc/phynciau. Mae eu cylch gwaith yn cynnwys adolygu nodiadau cynllunio athrawon, gan archwilio enghreifftiau o waith disgyblion, gan arfarnu ansawdd a maint adnoddau ac arsylwi ar addysgu'n uniongyrchol.

Ceir ffocws cryf yn yr adroddiadau arfarnu ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni ac ar ansawdd yr addysgu. Ceir enghreifftiau o gyfundrefn hunan-arfarniad yn dylanwadu ar gynnydd.

Mae gweithdrefn hunan-arfarnu'r ysgol yn cymryd i gyfrif safbwyntiau disgyblion, staff, rhieni a phartïon sydd â diddordeb.

Anfonir holiadur y creffir arno i rieni'n flynyddol a rhoddir sylw ac ystyriaeth i unrhyw bwyntiau dilys. Ymdrinnir â safbwynt y disgyblion drwy Gyngor yr Ysgol – dyfeisiodd Cyngor yr Ysgol holiadur ar gyfer y disgyblion. Mae staff yn ymwybodol o'u rôl a thrwy gyfarfodydd wythnosol a chyfarfodydd rheoli perfformiad yn gallu mynegi eu barn.

Mae'r staff yn gydlynwyr pwnc fel y gosodwyd yn rhaeadru'r Cydlynwyr CDY a rhannu gwybodaeth gyda staff eraill.

Mae cydlynwyr yn hunan-arfarnu pynciau yn ogystal â threfnu amserlenni i:
gasglu samplau o waith, eu lefelu (megis corff o staff) ac adeiladu portffolio
monitro'r addysgu.
adrodd ar y cryfder a'r gwendidau.
sicrhau y datblygir mannau gwan drwy greu ffocws/maes blaenoriaeth os bydd yn Angenrheidiol fel y gwelwyd yn y CDY.

Ceir cysylltiad cryf rhwng yr ysgol a Swyddog Addysg yr Esgobaeth, y Canon Robert Townsend sy'n darparu cyfleoedd i'r staff addysgu ddatblygu'n broffesiynol o fewn AG er enghraifft hyfforddiant Chwarae Duwiol a darparu adnoddau.

Rydym hefyd yn derbyn ymweliad rheolaidd gan y Clerigion a'r Esgobaeth yn cynnwys ymweliadau gan yr Esgob Andy John a'r Archddiacon Paul Davies.

Cynrychiolir yr eglwys ar ein corff llywodraethu gan lywodraethwyr gwaddoledig sy'n sicrhau y cedwir yr ethos Gristnogol ac y rhoddir cefnogaeth ar werthoedd Cristnogol.

Ceir cyflenwad da o adnoddau AG yn yr ysgol ac lle mae angen ychwanegol, mae'r ysgol mewn cyswllt â'r Esgobaeth, yr Eglwys ac aelodau'r eglwys. Rydym hefyd yn gwneud defnydd da o'r Eglwys fel adnodd addysgu ychwanegol.

**Cryfderau allweddol**

Hunan-arfarniad yr ysgol.
Y berthynas rhwng yr ysgol a'i chydranddalwyr.
Gweledigaeth Gristnogol yr ysgol.

Mae’r Pennaeth a’r staff yn modelu ac yn hybu ymddygiad da a’r gwerthoedd sy’n cyfrannu’n effeithiol tuag at greu ethos yn yr ysgol lle mae’r disgyblion a’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a’u gwerthfawrogi.

**Pwyntiau datblygu**

Parhau i ddatblygu cysylltiadau gyda’r Ysgolion Eglwys yng Nghymru eraill i drafod yr arfer dda.

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2015 – Awst 2016

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Delyth Molyneux

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG: Cynghorydd Dylan Rees

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2015-16
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol
3.7 Cynllun Gweithredu CYSAG Môn 2015-17

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

### 1.1 Crynodeb y Cadeirydd

Dylan Rees
Chairman, 2015-16

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008).

Prif swyddogaeth CYSAG yw, '*cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'*. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- wahodd athrawon a phenaethiaid i rannu eu harferion da gyda'r aelodau yn y cyfarfodydd tymhorol;
- ymweld ag ysgolion, trwy wahoddiad ar hyn o bryd, er mwyn mynychu sesiwn addoli ar y cyd.

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Danfonwyd llythyr (11.06.2014) yn gofyn i **bob ysgol gynradd ac uwchradd** i gyflwyno adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn erbyn 22 Mai 2015. Derbyniwyd 12 adroddiad yn ystod 2015-16, sef 21% o ysgolion Môn.

| | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| **Nifer o adroddiadau** | 6/53 | 8/53 | 12/53 |
| **% o ysgolion Môn** | 11% | 15% | 22% |

Cyn 2013, roedd Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynwyd canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Cynhaliodd yr Ymgynghorydd Her sy'n cefnogi CYSAG Môn gweithdy hunan arfarnu yn Llangefni ar 11 Medi 2014 er mwyn cefnogi cydlynwyr addysg grefyddol newydd.

Cyflwynwyd 12 adroddiad hunan arfarnu i sylw CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau gan ysgolion cynradd Bryngwran, Y Fali, Llanfechell, Rhosybol, Pensarn, Ysgol Gynradd Amlwch, Canolfan Addysg y Bont, Talwrn, Y Ffridd, Y Graig ac Ysgol Gynradd Pencarnisiog yn ystod y flwyddyn ac un adroddiad uwchradd gan Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 6* | 1 | | | 6* | 1 | | 1 | 4* | | |
| **Uwchradd** | 1 | | | | | 1 | | | | 1 | | |
| **Cyfanswm** | 1 | 6 | 1 | | | 7 | 1 | | | 5 | | |

- *Ni chyflwynwyd barn grynodol gan Ysgol y Fali a Chanolfan Addysg y Bont. Ni chyflwynwyd arfarniad o safonau a'r ddarpariaeth addysg grefyddol gan Ysgol Llanfechell.*

Roedd llawer o'r adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarnol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Nododd pob pennaeth bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy ac yn cyfeirio at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

Cyfnod Sylfaen

- Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen ddeall beth yw prif negeseuon o fewn storïau crefyddol, gydag ychydig yn medru esbonio effaith y negeseuon/gwers ar unigolion. (Ysgol Gynradd Amlwch)
- Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion B2 yn gallu trafod geirfa ac arteffactau addysg grefyddol yn dda ac ychydig yn dda iawn. (Ysgol Pensarn)
- Drwy ymweliadau ag addoldai lleol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfarwydd ag awyrgylch a naws yr adeiladau crefyddol, ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae'r mwyafrif yn gallu dangos gwybodaeth elfennol ynglŷn â symbolau crefyddol. (Ysgol Talwrn)
- Gall y rhan fwyaf o ddysgwyr siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae tua hanner yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. (Ysgol y Fali)

<u>Cyfnod Allweddol 2</u>

- Mae tystiolaeth yn llyfrau'r plant a chanfyddiadau monitro'r dysgu a'r addysgu yn dangos fod safonau yn dda ar draws yr ysgol. (Ysgol Rhosybol)
- Mae llawer o'r plant yn frwdfrydig wrth ymdrin â'u gweithgareddau ac yn mwynhau profiadau amrywiol. Gwelir tystiolaeth fod llawer y cyflawni'n gadarn ar lefel 4 ac ychydig iawn o'r plant yn cyflawni ar Lefel 5 erbyn brig CA2. (Ysgol Bryngwran)
- Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion B3/4 yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddant yn defnyddio geirfa grefyddol syml yn addas. (Ysgol y Fali)
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae y rhan fwyaf yn medru nodi'r nodweddion sy'n debyg neu yn wahanol o fewn crefyddau. (Ysgol Gynradd Amlwch).
- Mae disgyblion Bl 3 a 4 yn gallu trafod crefydd Islam a Christnogaeth yn dda a disgyblion Bl5 a 6 yn gallu holi ac ateb cwestiynau am Iddewiaeth yn dda. (Ysgol Pensarn)

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at drafodaethau ac y mae lleiafrif yn mynegi barn yn ystyrlon parthed cwestiynau crefyddol. Mae'r rhan fwyaf yn gallu trafod bywyd arweinwyr crefyddol ac yn gallu cymharu cyfraniadau unigolion allweddol, e.e. Y Fam Teresa, Grace Darling a Dr Barnado. (Ysgol Talwrn)
- Ym mlynyddoedd 3 a 4 gwyr y disgyblion yn dda am grefyddau eraill. Maent yn gallu cysylltu symbolau a chrefyddau ac yn trafod hynny yn rhwydd ac yn wybodus. Sylweddolant werthoedd crefydd i grwpiau penodol a phwysigrwydd parchu hynny yn fyd eang. O'u hastudio yn fanwl sylweddolant fod tebygrwydd rhwng gwahanol gredoau. Ym mlwyddyn 5 a 6 adeiladant ar wybodaeth flaenorol gan ymestyn eu gwybodaeth i gynnwys disgrifiadau ac arferion o gredoau neilltuol. (Ysgol y Ffridd)
- Yng ngwaelod CA2 mae'r mwyafrif yn medru gofyn cwestiynau a siarad am eu profiadau eu hunan, ac ychydig yn cwestiynu am y byd o'u cwmpas a thrafod cwestiynau sy'n codi o'u profiadau nhw gan gynnig eu barn eu hunan. Maent yn dechrau sylweddoli bod crefydd yn medru cael effaith negyddol ar y byd sydd ohoni heddiw. Ym mrig CA2 mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod eu teimladau nhw am fywyd, y byd eang ac effaith crefydd ar y byd. Mae lleiafrif yn medru mynegi a chefnogi eu sylwadau am gwestiynau sylfaenol crefydd gan ddatgan fod crefydd yn gymhleth ac nad oes ateb pendant i lawer o'r cwestiynau. (Ysgol y Graig)
- Yng ngwaelod CA2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill (Pencarnisiog)

<u>Ysgol arbennig</u>

- Dengys canlyniadau ASDAN/Agored Cymru (ble ymgorffori'r Addysg Grefyddol) fod y disgyblion yn gwneud cynnydd da dros ystod ehangach o agweddau a chefnogi'r hyn drwy arsylwi'r disgyblion mewn ystod o sefyllfaoedd ymarferol, ac yng nghynnydd sylweddol ystod ac amrediad achrediadau 2012-15. (Canolfan Addysg y Bont)

Ysgol uwchradd

- Mae perfformiad CA3 yn dda, perfformiad CA4 yn rhagorol a pherfformiad CA5 yn dda ac mae ymarferion craffu ac arsylwi gwersi'n dangos bod disgyblion yn gwneud cynnydd da i ragorol mewn addysg grefyddol ar draws pob cyfnod allweddol. (Ysgol Syr Thomas Jones)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddwysau ymwybyddiaeth disgyblion CA2 o ddysgeidiaeth ac arferion crefyddol byd eang (Ysgol Talwrn)
- ddatblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. (Ysgol Rhosybol ac Ysgol y Graig)
- ddatblygu'r sgil ymhlith dysgwyr Cyfnod Sylfaen o feddwl yn greadigol wrth lunio cwestiynau dynol a chrefyddol pwysig. (Ysgol Pensarn)
- ddatblygu dealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau (Ysgol Pencarnisiog)
- datblygu gallu'r disgyblion i esbonio a chyfiawnhau syniadau yn fwy trylwyr yn ystod cyfnod amser cylch ac i fynegi barn ar sut mae'r hyn y maent yn ei ddysgu yn effeithio arnynt. (Ysgol Gynradd Amlwch)
- ysgogi'r dysgwyr i wneud defnydd mwy effeithiol o ystod o ffynonellau er mwyn cyflwyno ac ategu dadleuon a barnau. (Ysgol Pensarn)
- sicrhau bod y dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o eirfa a gysylltir â chrefydd (Ysgol y Ffridd)
- ysgrifennu'n estynedig wrth gofnodi. (Ysgol Bryngwran)
- godi safonau bechgyn CA3 ac ansawdd ymatebion rhai cwestiynau arholiad yr ymgeiswyr cyfrwng Saesneg yn CA4. (Ysgol Syr Thomas Jones)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- bod cofnodion o arsylwadau gwersi addysg grefyddol yn dangos bod yr addysgu yn gyson dda a'r plant yn elwa o brofiadau eang ac amrywiol. (Ysgol Bryngwran)
- bod cynlluniau'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi ystyriaeth i weithgareddau trawsgwricwlaidd sydd yn gwneud defnydd o wahanol ardaloedd o fewn y cyfnod sylfaen e.e. byd bach Stori'r Geni, chwarae rôl yn Arch Noa. (Ysgol Gynradd Amlwch)
- bod gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen wedi eu cynllunio ar draws y cyfnod Sylfaen ac yn dangos dilyniant o un dosbarth i'r llall o ganlyniad i gyd gynllunio a chyd drafod . (Ysgol y Fali)
- yr anogaeth a roddir i blant Cyfnod Sylfaen wrth iddynt ddysgu parchu llyfrau a gwrthrychau sanctaidd a dod yn gyfarwydd â rhai o'r hanesion ynghlwm a hwy ynghyd a dysgu am arwyddocâd digwyddiadau crefyddol arbennig (Ysgol y Ffridd)
- yr ystod eang o brofiadau a ddarperir i ddisgyblion Cyfnod Sylfaen sy'n rhoi pob cyfle iddynt wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes. (Ysgol Pencarnisiog)
- bod pob uned o waith yn dechrau gyda chwestiwn mawr i'w ymchwilio er mwyn datblygu sgiliau ymholi'r disgyblion. Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion weithio yn drawsgwricwlaidd gydag addysg

grefyddol yn cael lle amlwg o fewn gwersi drama, celf ac iaith o fewn yr adran. (Ysgol Gynradd Amlwch)

- bod pob blwyddyn y CA2 yn astudio crefydd wahanol (B3 Hindwaeth, B4 Iddewiaeth, B5 Islam a B6 Sikhaeth). Yma ceir cyfle i drafod gwyliau pwysig, gwisg, addoldai, arferion, cred, pobl allweddau ac yna eu cymharu â'u ffordd ni o fyw a'r effaith mae'r credoau yn cael ar ein byd. Mae hyn yn rhoi cyfle gwych i drafod cwestiynau mawr. (Ysgol y Graig)
- y modd y mae disgyblion CA2 yn dod wyneb yn wyneb a chwestiynau mawr bywyd, *e.e. Pwy wyf fi? Beth sy'n iawn?* er mwyn datblygu eu sgiliau ymholi. ( Ysgol y Ffridd)
- yr adnoddau a'r llyfrau addas sydd ar gael yn yr ysgol ac mae'r rhain o safon uchel ac maent yn gyfredol. Defnyddir clipiau fideo i gyflwyno agweddau o'r gwaith. (Ysgol y Fali)
- cynllunio bwriadus yr athrawon sy'n seiliedig ar ymweliadau allanol er mwyn cyfoethogi'r dysgu, *e.e. addoldai lleol, synagog Lerpwl*. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r disgyblion i wneud cymariaethau a chodi cwestiynau perthnasol.( Ysgol Talwrn)
- y modd y mae'r ysgol yn manteisio ar ymwelwyr sy'n dod i'r ysgol i sgwrsio a rhannu eu profiadau am bererindodau a gwaith elusennol mewn gwledydd dramor. (Ysgol Rhosybol)
- y profiadau dysgu cyfoethog a ddarperir i'r disgyblion drwy ystod eang o brosiectau/mentrau/gweithgareddau ychwanegol, e.e. 'Llais Ni' (Fforwm Ieuenctid Môn), 'Agor y Llyfr', 'Campau'r Ddraig', 'Marchogaeth i'r Anabl', 'Ysgol Goedwig' a mwy. O ganlyniad i'r enghreifftiau uchod mae'r ddarpariaeth yn cynnig mwynhad ac amrywiaeth ac yn datblygu medru hanfodol ac ehangach, yn benodol gweithio o fewn tîm, parchu a rhyngweithio a chyfoedion ag oedolion/cyhoedd nad ydynt yn gyfarwydd â hwy, ac yn bwysicach, yn datblygu hyder gan oresgyn rhagfarn. Maent hefyd yn esgor at brosiectau/gweithgareddau mwy parhaol sydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm. (Canolfan Addysg y Bont)
- ansawdd yr addysgu, a fernir i fod o safon dda i ragorol, gyda chynllunio manwl a'r strategaethau amrywiol o addysgu yn cael eu defnyddio'n gyson yn yr adran . (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
- gwaith llythrennedd y gyfadran sydd wedi ei mapio ar draws tair blynedd yn amlinellu ffocws penodol pob tymor yn CA3 i ddatblygu gwahanol ffurfiau o ysgrifennu. Gwnaed hyn mewn ymgynghoriad a'r Adran Gymraeg. Bydd hyn yn atgyfnerthu a gwella'r hyn y maent yn ei wybod yn barod a phlethu i wersi iaith. Tybir i hyn fod yn arfer rhagorol.

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae'r ysgolion yn nodi'r angen i:

- Adolygu'r cynlluniau Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 (Ysgol y Fali)
- Datblygu ymhellach ymwybyddiaeth ac ymdriniaeth y plant o gwestiynau mawr y byd. Sicrhau fod amser dyladwy yn cael ei neilltuo ar gyfer y maes. (Ysgol Bryngwran)
- Sicrhau fod y cynllun gwaith yn cael ei fireinio er mwyn sicrhau bod amser digonol yn cael ei glustnodi ar gyfer Addysg Grefyddol. (Ysgol Pensarn)
- Sicrhau dilyniant yn y cynlluniau a defnyddio mwy o gwestiynau mawr i sicrhau dyfnder a datblygu sgiliau ymholi disgyblion CA2. (Ysgol Rhosybol, Ysgol Pencarnisiog, Ysgol y Fali)
- Parhau i ddatblygu tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer y disgyblion mwy galluog ymhob dosbarth. (Ysgol Rhosybol, Ysgol y Ffridd)
- Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu'r ochr meddwl am effaith a chanlyniadau o fewn cynlluniau gwaith. (Ysgol Gynradd Amlwch)
- Rhannu arferion da (Ysgol y Graig)
- Parhau i ddatblygu safle Moodle yr adran ar draws pob cyfnod allweddol er mwyn cefnogi a hyrwyddo dysgu annibynnol. (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.

Roedd yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- amserlen yr ysgol sy'n nodi'n glir y straeon Beiblaidd, straeon am gymwynaswyr enwog a'r themâu sy'n ffocws i'r sesiynau addoli ar y cyd dyddiol. (Ysgol Gynradd Amlwch)
- bod y cyfnodau addoli ar y cyd yn hybu datblygiad ysbrydol y plant trwy gynnig amser arbennig ar wahân i weithgareddau cyffredin yr ysgol...fel bod plant yn cael cyfle i fyfyrio ar eu teimladau eu hunain. (Ysgol Bryngwran)
- y cyfleoedd i drafod cwestiynau mawr ac i gyflwyno gwaith y dosbarth i weddill yr ysgol. Byddant yn cael eu defnyddio fel arf ar gyfer datblygu cwestiynau moesol, agweddau o ddinasyddiaeth byd eang a datblygiad personol a chymdeithasol. Byddwn yn pwysleisio fod angen dathlu tebygrwydd a gwahaniaethau. (Ysgol y Fali)
- y cyfleoedd a roddir i bron pob un o'r disgyblion fyfyrio, ystyried agweddau moesol a chyfrannu'n ysbrydol tuag at ysgogiad crefyddol, *e.e. ymateb i sgwrs gan unigolyn boed yn aelod o staff, ymwelwyr neu wrth gwrs y disgyblion eu hunain.* (Ysgol y Talwrn)
- y modd y mae'r ysgol yn defnyddio amrywiol adnoddau er mwyn dal sylw a sbarduno trafodaethau crefyddol / ysbrydol. Mae rhai gwasanaethau yn fwy crefyddol a Christnogol eu naws. Yn ystod y gwasanaethau hyn cyflwynir straeon Beiblaidd neu alegorïau. Ar adegau eraill rhoddir sylw i gyflwyno negeseuon moesol. Ar ddiwedd pob cyflwyniad rhoddir cyfle i'r holl blant gyfrannu at y trafodaethau neu'r sesiwn rhannu profiadau. Rhoddir amser penodol mewn llawer o'r addoliadau i blant fyfyrio ar neges y bore.
- y cyfleoedd i ymdrin ag agweddau moesol, ysbrydol a chred tra ar yr un pryd yn meithrin ysbryd cymunedol a hyrwyddo ethos a gwerthoedd. (Ysgol Rhosybol)
- cyfraniad arwyddocaol addoli ar y cyd tuag ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu agweddau ar ABaCh, Dinasyddiaeth Fyd Eang a'r Cwricwlwm Cymreig fel rhan o'r addoliad. Mae creu ethos sydd yn wahanol i ethos pob dydd yr ysgol yn digwydd mewn mwyafrif o sesiynau. (Ysgol Pencarnisiog)
- y cyflwyniadau a'r gwasanaethau amrywiol sy'n annog disgyblion i ddod i benderfyniadau teg a goddefgar wrth ystyried amrywiaeth y gymdeithas rydyn oll yn rhan ohono. (Canolfan Addysg y Bont)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae'r angen i:

- ddatblygu ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur. (Ysgol y Ffridd)
- gryfhau'r syniad bod y sesiwn addoli ar y cyd yn rhan bwysig a defosiynol i bawb (Ysgol y Graig)
- adeiladu ar yr arfer dda drwy roi rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddarparu'n annibynnol agweddau moesol ar gyfer y sesiynau addoli ar y cyd (Ysgol Talwrn, Ysgol Bryngwran)
- efelychu'r arferion da ymhob sesiwn addoli ar y byd (Ysgol Rhosybol).
- sicrhau bod plant yn gallu trafod credoau a lleiafrif yn gallu sôn am y wers foesol yn ystod gwasanaeth. (Ysgol Pensarn)
- sicrhau bod rhagor o sylw'n cael ei roi i ddatblygu'r agwedd o ddinasyddiaeth fyd-eang yn y sesiynau addoli ar y cyd. (Ysgol Llanfechell)
- drafod y sesiynau addoli ar y cyd gyda'r holl staff gan drefnu cyfnodau ar gyfer creu cynlluniau ar gyfer y sesiynau yma . Mae angen gosod themâu yn eu lle ar gyfer y cyfnodau gan sicrhau fod y cynlluniau yn efelychu gwaith / themâu'r dosbarthiadau. ( Ysgol y Fali)
- ddirprwyo a rhannu cyfrifoldebau a sicrhau atebolrwydd holl staff mewn perthynas ag addoli ar y cyd. (Ysgol Bryngwran)
- Sicrhau bod addoli ar y cyd dosbarth/adran CS yn cydymffurfio a rheoliadau a gofynion. (Ysgol y Graig)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc fel eu bod yn gallu arwain gwelliannau yn eu hysgolion;
- Sicrhau bod ysgolion yn cael mynediad at ganllawiau ac arferion da a fyddai'n gwella deilliannau addysg grefyddol eu disgyblion ac ansawdd yr addysg grefyddol.

### 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion ac yn defnyddio canfyddiadau'r rhaglen safoni genedlaethol (2010-12) a chanllawiau Llywodraeth Cymru i'w cynorthwyo:

- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| Blwyddyn | Ysgolion | Disgyblion | | %L5+ | | %L6+ | | %L7+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C* | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C | Ynys Môn | M+G+C |
| 2015 | 5(5)+13(14) | 648 | | 89.2 | | 54.9 | | 15.4 | |
| 2014 | 5(5)+11(14)+0(0) | 611 | 1,659 | 87.7 | 91.7 | 44.4 | 55.3 | 17.2 | 19.6 |
| 2013 | 5(5)+5(14)+1(7) | 675 | 1,242 | 86.4 | 88.7 | 68.5 | 52.3 | 13.8 | 18.2 |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 657 | 2,577 | 74.0 | 82.7 | 51.4 | 43.2 | 6.8 | 12.5 |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 378 | 1,773 | 76.7 | | 40.9 | | 10.1 | |

* Erbyn diwedd tymor yr Haf 2015 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 13 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd. Nid yw CYNNAL yn casglu data Conwy bellach.. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgolion arbennig (Yr Hafan ac Ysgol y Bont) wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 648 o ddisgyblion CA3 yn ystod tymor yr Haf 2015.

- Cyflawnodd 89,2% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol sy'n gynnydd o 1.5% ers 2014. Mae'r ganran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 82.2% i 91.1%;
